# Rhaglen Gyflawn

**Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 19EG RHAGFYR, 2019**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 12/12/19)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD IAU, 12 RHAGFYR 2019**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 19 RHAGFYR 2019**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 19EG RHAGFYR, 2019 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Llyfni
Annibynnol Unedig Gwynedd - Ystafell Menai

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.9 o'r Cyfansoddiad*.*

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2020/21** 14 - 18

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

**9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2020/21** 19 - 23

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

**10. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) - TACHWEDD 2019** 24 - 31

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**11. CYNLLUN ARGYFWNG NEWID HINSAWDD** 32 - 50

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**12. ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU** 51 - 72

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (ynghlwm).

**13. AIL-BENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU** 73

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**14. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS**

Yn unol â'r rhybudd o gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gruffydd Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

"Mae'r cyngor yn nodi:

- Bod cyfeddiannu tiriogaethau gan rym goresgynnol yn waharddedig o dan gyfraith ryngwladol, ac felly'n drosedd ryfel.

- Bod cyfeddiannu'r Tiriogaethau Palesteinaidd yn tanseilio unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i gael 'Datrysiad Dwy Wladwriaeth' heddychlon trwy amgylchynu'n barhaol y tiriogaethau sy'n dal o fewn y Lan Orllewinol.

- Bod hawl y Palesteiniaid i ymreolaeth yn eu gwlad eu hunain wedi ei chydnabod mewn penderfyniadau niferus gan y Cenhedleoedd Unedig sydd wedi eu hanwybyddu gan Wladwriaeth Israel.

- Y dylai Gwladwriaeth Israel ddwyn i ben feddiannu'r Tiriogaethau Palesteinaidd, yn unol â phenderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig, a chaniatau i wladwriaeth Balesteinaidd gael ei chreu er mwyn osgoi trefn apartheid yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r cyngor:

- Yn cydnabod bod parhau i feddiannu Tiriogaethau Palesteinaidd yn anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor yn galw ar:

- Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod yn llawn Wladwriaeth Palesteina.

- Y gymuned ryngwladol i ddwyn pwysau diplomyddol ar Wladwriaeth Israel i ddwyn i ben y meddiannu anghyfreithlon ac i beidio â chyfeddiannu mwy o diriogaeth."

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

Yn unol â'r rhybudd o gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

"Bod y Cyngor yn annog ein hysgolion i ddysgu yr anthem genedlaethol yn ei chyfanrwydd i'r disgyblion. Ymhellach i hyn, ein bod yn annog ein Senedd i gysylltu â'r holl gynghorau sir eraill fel eu bod yn cydymffurfio â'r cynnig hwn."

# Y CYNGOR DYDD IAU, 3 HYDREF 2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd); Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Freya Bentham, Stephen Churchman, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Charles W.Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dilwyn Lloyd, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Jason Parry, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwenna Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) (ar gyfer eitem 7), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Dylan Bullard, Gareth Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Keith Jones, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Linda Morgan, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, W.Gareth Roberts, Ioan Thomas, Hefin Underwood a Gruffydd Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2019 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn Gynghorydd a chyn Gadeirydd y Cyngor hwn, William Arthur Evans, a fu farw ym mis Awst.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Elain Heledd, prifathrawes Ysgol Llanegryn, a fu farw'n ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Guto Dafydd ar ennill y Goron a Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy eleni.
- Pawb arall o Wynedd a fu’n fuddugol, neu a gafodd eu anrhydeddu yn yr Eisteddfod, gan gynnwys y cyn Brif Weithredwr, Geraint R.Jones, a gafodd ei urddo’n Gymrawd yr Eisteddfod.

Dymunwyd yn dda i Paula Sky Tunnadine, aelod o staff Canolfan y Pafiliwn, Harlech, fyddai’n teithio i Hawaii i gystadlu yng nghystadleuaeth Ironman, wedi iddi ennill cystadleuaeth Ironman Cymru yn ddiweddar.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i’w nodi.

**6. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**7. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i’r cwestiynau i’r aelodau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dylan Fernley**

“Pa gamau mae’r Cyngor hwn yn bwriadu gymryd i hyrwyddo’r defnydd o gludiant cyhoeddus gan weithwyr? A ddylem ni gymell y defnydd o fysiau a chosbi’r defnydd o geir gan y sawl sy’n byw ar lwybrau bws. Onid drwg o beth yw talu i bobl yrru car pan mae yna gludiant cyhoeddus addas ar gael.”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd)**

“Croesawir y cwestiwn yma, ac mae sicr lle i leihau teithiau swyddogion a lle i edrych ar drafnidiaeth mwy cost effeithiol a chynaliadwy i deithio o gwmpas ein Sir.

Fel cam cyntaf, ‘rydym ar hyn o bryd yn adolygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ar draws Gwynedd a byddwn yn amlygu cyfleoedd i deithio rhwng swyddfeydd ardal y Cyngor.

Ar yr un pryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwasanaeth Trawscymru gyda’r gobaith o gael mwy o amlder rhwng Aberystwyth a Bangor. Bwriedir cael gwasanaeth cyflym rhwng Dolgellau a Bangor ar amseroedd brig. h.y. ni fydd y bws yn gwyro i bentrefi, sydd yn golygu y bydd hyn yn fwy deniadol i weithwyr.

Mae’r Cyngor a chwmni Arriva wedi bod yn cydweithio i gael tocyn rhatach i staff Cyngor Gwynedd sydd yn annog gweithwyr i deithio ar fws yn ardaloedd Bangor, Caernarfon a Bethesda lle mae’r cwmni yn rhedeg.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Dylan Fernley**

“Beth ydym ni am wneud am y sefyllfa?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd)**

"Diolch am roi her i ni fel Cyngor i edrych ar y mater. Mae'n gwestiwn dilys iawn - pam na fedrwn ni ddyfeisio rhyw drefn sy'n annog, boed o'n weithwyr neu'n gynghorwyr, i ddefnyddio bws yn lle car, ac rwy'n meddwl bod yna le i ni edrych ar hynny. Un broblem fawr, wrth gwrs, fel un sy'n byw mewn ardal hynod o wledig, yw nad yw'r drafnidiaeth gyhoeddus yn addas i bwrpas yn aml iawn i gyrraedd cyfarfodydd ar yr amseroedd iawn, ac yn y blaen, ac mae'n bosib' y dylem fod yn edrych ar ein hamserlenni bysiau a threfnu ein cyfarfodydd i siwtio'r amserlenni bysiau hynny. Rwy'n credu bod yna le i ni weithio ar hynny. Ond, wrth gwrs, yn y pen draw, mae angen buddsoddiad sylweddol mewn creu system drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy, di-garbon, os medrwn ni, ac mae hynny'n golygu ein bod angen buddsoddiad sylweddol i wneud hynny, ac mi fuaswn i'n gefnogol i hynny."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Mae'n bum mlynedd ers i'r Cyngor basio'r cynnig isod (09.10.2014):

*"O ganlyniad i'r ymosodiadau diweddaraf ar diriogaeth y Palesteiniaid sy'n byw ar Lain Gaza gan Wladwriaeth Israel, mae'r Cyngor hwn yn galw am waharddiad masnachu ar Israel ac yn condemnio'r gor-ymateb a'r mileindra a ddefnyddiwyd.*

*Ymhellach i hyn, 'rydym yn cadarnhau a thanlinellu penderfyniad y Cyngor hwn i beidio buddsoddi yn Israel na sefydliadau'r wlad honno.*

*Credwn os bydd Gwynedd yn arwain y ffordd bod gobaith i gynghorau eraill yng Nghymru a thu hwnt ddilyn ein hesiampl."*

*Yn ystod y drafodaeth:-*

• *Cefnogwyd y cynnig a llongyfarchwyd yr aelod am ddod â'r mater gerbron.*
• *Nodwyd ei bod yn bwysig bod Cyngor Gwynedd yn edrych allan ar y byd ac yn ceisio dylanwadu gorau y gallai ar sefyllfa fel hyn.*
• *Pwysleisiwyd bod angen gwneud yn glir bod y cynnig yn condemnio Gwladwriaeth Israel, ac nid y Grefydd Iddewig."*

A fedr yr Arweinydd ein diweddaru ar sut mae'r Cyngor wedi gweithredu ar y cynnig? Er enghraifft, a yw'r Cyngor wedi negyddu neu wrthod unrhyw fuddsoddiadau neu fasnach o ganlyniad; a yw'r Cyngor wedi osgoi buddsoddi neu fasnachu gyda chwmnïau sydd yn gweithredu yn Israel; a gododd unrhyw faterion cyfreithiol neu unrhyw anawsterau eraill wrth weithredu'r polisi; ac a yw'r Cyngor wedi sicrhau bod ei holl gontractwyr yn gweithredu'r polisi?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Bydd rhai ohonom yn cofio'r cynnig yma ac yn cofio canlyniad y cynnig. Nid yw'r Cyngor wedi buddsoddi mewn cronfeydd o Israel gan nad oeddent yn cyfarfod â'r meini prawf ariannol a sefydlwyd yn y Strategaeth Buddsoddi a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn dilyn pasio'r cynnig yma yn 2014, fe heriwyd ei gyfreithlondeb gan y Jewish Human Rights Watch yn yr Uchel Lys. Aed a heriau cyfreithiol tebyg yn erbyn Cynghorau Abertawe a Chaerlŷr. Dyfarnwyd o blaid y Cyngor yn y Llys ar y sail nad oedd y cynnig wedi effeithio ar ein penderfyniadau buddsoddi. Er hynny, mae'r

gyfraith yn glir na chaniateir i'r Cyngor ddyfarnu contract ar sail tarddiad cenedlaethol neu diriogaethol y contractwr, y cyflenwad neu wasanaeth.

Yn gryno felly mi rydym ni yn gweithredu yn unol â'r penderfyniad ond rhaid i ni fod yn wyliadwrus wrth wneud hynny, nad ydym yn gwneud unrhyw beth anghyfreithlon."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Ydych yn ymwybodol bod cynghorau eraill wedi dilyn ein hesiampl, ac os felly, pa rai?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Yn amlwg, rydym ni'n ymwybodol bod Cyngor Abertawe a Chyngor Caerlŷr, oedd yn rhan o'r un gwrandawiad â ni yn yr adolygiad barnwrol hwnnw. Rydym yn deall bod cyrff cyhoeddus yn Llundain, Dwyrain Sussex, Caergaint, Winchester, Bryste, Sheffield, Caeredin a Chyngor Dinas Dulyn wedi galw hefyd am waharddiad masnachu ag Israel a bod nifer o gynghorau mewn gwledydd ar draws Ewrop yn gyffelyb felly."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron Jones**

"Sut mae'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc yn rhagweld fod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ymdopi gyda heriau sy'n wynebu ein plant a phobl ifanc yn y dyfodol oherwydd ansicrwydd sy'n digwydd ledled Cymru a Phrydain yn bresennol?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

"Cwestiwn penagored iawn. Gallwn eich cadw chi yma am rai oriau yn canmol yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Gwasanaeth Plant, ac yn y blaen, ond rwyf am fanteisio ar y cyfle i ddiweddaru ac uchafu materion sy'n heriol ar hyn o bryd i ni yn y gwasanaeth. Petai gennyf fwy o amser, byddwn yn eich diweddaru ar yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Gwasanaeth Plant ac rwy'n meddwl efallai bod yna neges yma y byddwn yn gwerthfawrogi ac yn croesawu unrhyw ymholiad gan aelodau ynglŷn â'r Gwasanaeth Plant oherwydd, ar ddiwedd y dydd, mae'n gyfrifoldeb i ni i gyd oherwydd rydym ni i gyd yn rhieni corfforaethol. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y neges yna dod trwodd i chi.

Fodd bynnag, rwyf am symud ymlaen, ac am gymryd y cyfle cyn dod i'r ateb yn ffurfiol, i restru rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Fel rydych i gyd yn ymwybodol, rwy'n siŵr, mae yna gynnydd cyffredinol yn y galw am wasanaeth yr adran ac mae yna gynnydd bron yn ddyddiol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae diffyg lleoliadau maeth a phreswyl addas i blant a phobl ifanc sydd angen llety oddi wrth eu cartref teuluol yn arwain at gynnydd mewn lleoliadau anrheoledig, sef llefydd rydym ni'n gorfod darganfod ar y munud olaf i roi'r plant ynddynt i wneud yn siŵr eu bod yn saff. Mi roddaf enghraifft i chi o'r gwasanaeth yn gwneud dros 130 o alwadau ffôn i geisio dod o hyd i lety i un ferch ifanc; neb yn fodlon ei derbyn, ac yn y diwedd yn gorfod mynd â hi a'i rhoi mewn tŷ dros y penwythnos hefo ein staff. Felly, dyna un her arall sy'n ein hwynebu. Mae'r cynnydd yn y cymhlethdodau o achosion lle mae yna nifer o blant yn dod i'n sylw yn hwyr yn y dydd, h.y. dydyn nhw ddim ar ein radar ni o gwbl, a mwyaf sydyn, mae yna rywbeth yn digwydd yn y teulu ac mae'r plant yma'n dod i'n gofal. Felly mae hynny'n dipyn o her. Her arall sydd gennym ydi bod yna asiantaethau eraill yn encilio oddi wrth eu cyfrifoldebau oherwydd diffyg adnoddau ar amser o lymder. Felly, mae hynny'n rhoi her ychwanegol ar y Gwasanaeth Plant. Her arall yr ydym yn ei chanol hi ar hyn o bryd, ac amserol iawn i

mi adrodd ar hyn, ydi'r her a disgwyliad Llywodraeth Cymru i gael lleihad yn y niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan ganolbwyntio ar awdurdodau lleol. Rydym i gyd yn cytuno bod angen symud ymlaen i gael lleihad, ond mae'r Llywodraeth, ar hyn o bryd, yn ceisio mynnu rhoi targed i ni, sef ffigur o faint o blant ddylem ni leihau bob blwyddyn. Rydym ni'n un o 5 cyngor trwy Gymru sydd, ar hyn o bryd, yn gwrthod hyn oherwydd rydym ni'n teimlo ei fod yn rhoi ein plant mewn lle nad ydym eisiau iddyn nhw fod a hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein staff. Felly, mae hwnnw hefyd yn her ar hyn o bryd. Mae'r galwadau yn gynyddol ar ein gweithwyr cymdeithasol yn ystod achosion gofal. Mae amserlenni sy'n cael eu gosod arnynt gan y llysoedd, ac yn y blaen, yn codi anawsterau mawr o ran asesu plant ac unigolion. Am y tro cyntaf ers dros ddegawd rydym ni'n cychwyn gweld sgil effeithiau o fethu penodi staff i swyddi. Mae hynny'n gynyddol bryder i ni ac rydym, wrth gwrs, yn ceisio gwneud rhywbeth am hynny wrth wynebu'r her yna.

Mae'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ymateb i heriau newydd megis materion cam-fanteisio ar blant yn rhywiol, cam-fanteisio ar blant yn droseddol, ymddygiad rhywiol niweidiol a phroblemus drwy gydweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu ymarfer sydd yn uchafu sgiliau staff i ddelio gyda'r meysydd anodd yma. Yr ydym yn rhan o rwydwaith rhanbarthol a chenedlaethol sydd yn cyfrannu i'r datblygiadau hyn ac yn arwain y maes mewn nifer o feysydd megis diogelu. Yr ydym yn rhagweld fod angen datblygu gwasanaethau penodol ar gyfer rhai o'r meysydd heriol yma, ac mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd, er enghraifft, i ddatblygu tîm aml asiantaethol i weithio ym maes ymddygiad rhywiol niweidiol ac mae'r gwasanaeth yn rhedeg prosiect peilot penodol ar gyfer rhanbarth y Gogledd i wella a datblygu ymarfer amddiffyn plant effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn hyderus eu bod yn adnabod anghenion a heriau yn effeithiol, ac yn uchelgeisiol ar gyfer datblygu cynlluniau newydd i ymateb i'r heriau hyn. Mae'r Gwasanaeth Plant wedi llwyddo i gadw gweithlu sefydlog ers nifer o flynyddoedd gyda swyddogion proffesiynol yn aros yn y gwasanaeth ac yn magu profiad a hyder yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Yr ydym yn cynnig cyfleoedd i staff ddatblygu yn y maes ac yn buddsoddi yn helaeth mewn hyfforddiant proffesiynol. Mae staff y gwasanaeth yn brofiadol ar bob haen o arweinyddiaeth ac rwyf am gloi trwy nodi beth mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddweud yn eu hadroddiad yn Awst 2018 - *' gwelsom fod gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn sydd yn ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod a maint. …... Roedd staff yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a'u teuluoedd'.*

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Aeron Jones**

"Fedar yr Aelod Cabinet gadarnhau nad oes yna fwy o deuluoedd ar hyn o bryd yn dioddef camweinyddu gan y Cyngor hwn fel a ddigwyddodd i Mr a Mrs A, fel maent yn cael eu diffinio yn adroddiad diweddar yr Ombwdsmon, gan fod eu plentyn hwy yn awr yn oedolyn ac felly'n rhy hwyr i dderbyn y cymorth roedd ei angen ar y pryd? Mae gennym yma arbenigwyr, yn ôl y sôn, ar awtistiaeth a fethodd roi beth oedd ei angen i blentyn Mr a Mrs A."

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

"Nid ydym yn, nac erioed wedi, honni ein bod yn berffaith. Mae ein gweithwyr yn ymdrin â sefyllfaoedd anodd teuluoedd. Maent yn ymdrin â phlant mewn peryg'. Maent yn ymdrin â theuluoedd sydd mewn argyfwng, felly, fel roeddwn yn dweud, nid ydym yn honni ein bod yn berffaith. Ond fel Aelod Cabinet dros y gwasanaeth a hefyd, fel Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu a'r Panel Rhiantu Corfforaethol, rwy'n hollol hyderus bod gennym brosesau mewn lle ar gyfer edrych ar achosion o'r math yma, ac yn bwysicach byth, ein bod yn gallu dysgu o unrhyw achos sydd wedi codi. Rwy'n meddwl bod yr elfen yma o ddysgu yn bwysig iawn. Felly, hoffwn gadarnhau i

chwi i gyd bod diogelwch a datblygiad plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth i ni bob amser a bod llais y plentyn yn ganolog i hyn. O ran rhoi unrhyw sylw ar adroddiad yr Ombwdsmon, byddai'n amhriodol i mi wneud sylw ar hyn o bryd oherwydd bod 'na fwy nag un achos Ombwdsmon ac nid wy'n siŵr at ba un mae'r aelod yn cyfeirio."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Mae Ffordd Osgoi Bontnewydd a Chaernarfon yn datblygu'n sydyn. A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno gyda mi bod angen sicrhau bod unrhyw gynllun llwybr beicio yn sgil 'Active Travel' yn cael ei wireddu cyn gynted â phosib' yn ardal Bethel, gan fod datblygiadau'r ffordd yn croesi'r llwybr beicio a fwriedir?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd)**

"Rwy'n falch iawn fod y cynllun hir-ddisgwyliedig ar gyfer adeiladu ffordd osgoi wedi cychwyn o'r diwedd ac mae'n ymddangos ei fod yn gyrru ymlaen yn gyflym ar hyn o bryd.

Roeddem eisoes wedi adnabod adeiladu llwybr beicio a cherdded rhwng Bethel a Chaernarfon a Llanrug a Chaernarfon ar ein Mapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol. Felly, mae wedi bod yn ddyhead gennym i weld y llwybr yn cael ei adeiladu.

Rwy'n cytuno gyda chwi fod gennym ni gyfle euraidd nawr i wireddu'r cynllun cyn gynted â phosib yn sgil adeiladu'r ffordd osgoi a gallaf gadarnhau fod yr Adran Amgylchedd eisoes mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i geisio gyrru'r cynllun yma yn ei flaen, a chynllun i adeiladu llwybr rhwng Llanrug a Caernarfon, yn ogystal.

Yn ddelfrydol, hoffwn weld y cynllun yn cael ei adeiladu fel rhan o'r cynllun ffordd osgoi. Yn ogystal ag arwain at arbedion cost, byddai ei adeiladu fel rhan o'r cynllun mwy yn lleihau'r aflonyddwch cyffredinol i draffig lleol. Rydym eisoes wedi gofyn i Lywodraeth Cymru a yw hyn yn ymarferol bosib' ac rydym yn aros am eu hateb."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Gofynnaf i'r Arweinydd a'r Adran Drafnidiaeth sicrhau bod popeth yn barod a bod unrhyw arian, neu unrhyw wybodaeth, sydd ei angen gan y Llywodraeth yn cael ei gwestiynu yn syth gan yr adran i gael symud ymlaen cyn gynted â phosib'?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd)**

"Mi wnaf gael cyfarfod gyda'r adran i weld beth sy'n bosib' ei wneud i yrru'r cynllun yn ei flaen, fel rydym i gyd yn obeithiol y gallwn wneud a dweud y gwir."

**(5) Cwestiwn gan y Cynghorydd Louise Hughes**

"Unwaith eto, dros gyfnod yr haf, derbyniodd cannoedd o gerbydau ddirwyon parcio am barcio ar ochr yr A4086 ym Mhen y Pass. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymwybodol o'r broblem ers blynyddoedd, ond hyd yma, nid oes yna unrhyw ddatrysiadau ymarferol wedi'u rhoi mewn lle. Ni allwn barhau i ddirwyo ymwelwyr yn y modd yma. Sut mae'r Adran yn bwriadu unioni'r sefyllfa a rhoi darpariaethau parcio diogel mewn lle?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd)**

"Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o ymwelwyr i gyffiniau Gogledd Eryri yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o gwmpas ardal Yr Wyddfa. Mae hyn wrth gwrs yn galonogol o bersbectif twristiaeth ond mae problemau yn codi, yn enwedig ar y dyddiau fwyaf prysur wrth geisio ymdopi gyda'r niferoedd.

Gan fod llawer yn dewis defnyddio eu cerbydau personol i gyrraedd yr Ardal ac i deithio o gwmpas yr atyniadau, mae delio gyda'r galw enfawr am barcio yn dasg sydd bron yn amhosib'. Mae cyfrifoldeb arnom i geisio sicrhau bod ein rhwydwaith ffyrdd mor ddiogel â phosib', a dyna pam mae gwaharddiadau parcio a chyflymder yn cael eu gosod.

Wrth ystyried yr A4086 o gwmpas Pen y Pass a Phen y Gwryd, mae gwaharddiadau 'Clir ffordd' eisoes wedi'u gosod yno. Cadarnhaf fod yr arwyddion yn cydymffurfio gyda safonau priffyrdd cyfredol; er hynny, mae niferoedd eithaf uchel ar brydiau yn parhau i barcio yno. Mae gennym gyfrifoldeb i orfodi er mwyn diogelu'r cyhoedd, a cheisiwn wneud hynny i gyfleu neges i eraill i beidio â pharcio yno.

Mae'n hanfodol felly bod ardaloedd Pen y Gwryd a Phen y Pass yn cael eu rheoli i'r lefel briodol, yn enwedig dros gyfnodau gwyliau. Mae'r Adran yn ymwybodol o'r sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol ac wrth gwrs mae dwy ochr i hyn. Mae llawer o'r rhai sy'n derbyn tocyn yn aml yn anniddig ond mae angen iddynt werthfawrogi rhwystredigaeth pobl leol ynglŷn â'r trafferthion mae'r parcio anghyfreithlon yn ei greu.

Mae trafodaethau yn parhau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Sir Conwy yn ogystal â phartneriaid eraill, i geisio annog mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus ac i ystyried cyfleoedd i greu fwy o gapasiti parcio."

**8. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018-19**

Croesawyd y swyddogion canlynol o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i roi gair o gyflwyniad ar y cychwyn ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

- Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol)
- Jeremy Evans (Rheolwr Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol)

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ar gynnwys yr adroddiad.

Gan gyfeirio at yr Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (tudalen 27 o'r rhaglen), oedd yn manylu ar y graddau mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth sefydlu'r Gwasanaeth Ieuenctid newydd, codwyd pryder gan sawl aelod ynglŷn â chasgliad y Swyddfa Archwilio bod y Cyngor angen gwneud mwy o waith i sefydlu'r pum ffordd o weithio yn llawn. Cwestiynwyd sylw'r Archwilwyr bod darpariaeth y gwasanaeth wedi'i hysgogi'n bennaf gan gyfyngiadau ariannol yn hytrach na dealltwriaeth o'r galw hirdymor am y gwasanaeth.

Pwysleisiodd y cyn-Aelod Cabinet fu'n gyfrifol am gychwyn y broses o ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuenctid mai diben yr ail-fodelu oedd edrych ar y tymor hwy, gan ystyried sut i foderneiddio'r gwasanaeth a'i wneud yn fwy cynaliadwy ac yn fwy addas ar gyfer anghenion pobl ifanc heddiw ac i'r dyfodol. Roedd hefyd o'r farn bod ystyriaeth wedi'i roi i'r pum ffordd o weithio a'r amcanion llesiant a chyfeiriodd at yr ymgynghori gyda'r bobl ifanc a'r cydweithio gyda mudiadau lleol eraill yn y maes ieuenctid fel rhai enghreifftiau o hynny.

Ategwyd sylwadau'r cyn-Aelod Cabinet ac eraill gan yr Arweinydd a bwysleisiodd ei bod yn amlwg bod yna deimlad cryf iawn ymhlith yr aelodau bod canfyddiad y Swyddfa Archwilio yn hollol anghywir. Dadleuodd y gellid dweud bod pob newid mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf wedi'i ysgogi gan doriadau ariannol. Er hynny, roedd y Cyngor wedi bod yn canfod ffyrdd newydd o weithio sy'n cyfarch gofynion y Ddeddf Llesiant, ac roedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn enghraifft glasurol o hynny ac wedi'i ganmol fel model effeithiol ac arloesol a ddylai fod yn esiampl i gynghorau eraill ei ddilyn. Ychwanegodd fod yr hyn roedd yr aelodau wedi'i glywed yn tanseilio eu hymddiriedaeth yn y Swyddfa Archwilio i ddod i'r casgliadau cywir a galwodd am ddeialog rhwng y Cyngor a'r Swyddfa Archwilio ar y pwynt penodol yma er mwyn symud ymlaen i'r dyfodol.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol fod gan y Swyddfa Archwilio safbwynt gwahanol i'r Cyngor ar y mater penodol hwn. Eglurodd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda nifer o swyddogion gwahanol o fewn y Cyngor wrth fynd drwy'r broses a bod tystiolaeth y Swyddfa Archwilio yn seiliedig ar y cyfweliadau hynny. Roedd hefyd yn fodlon â thrylwyredd y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Er hynny, roedd yn cydnabod y gallai ail-ymweld â'r sefyllfa arwain at farn wahanol a gellid rhoi ystyriaeth i gynnal adolygiad dilynol ar y pwynt yma yn y dyfodol, gan gynnal trafodaethau llawnach gyda'r swyddogion, defnyddwyr y gwasanaeth a'r cyn-Aelod Cabinet fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Gan gyfeirio at yr adolygiad Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol (tudalen 45 o'r rhaglen), holwyd beth oedd y meddylfryd y tu cefn i drafod y ffaith bod asedau cynghorau sir yn mynd am y nesaf peth i ddim i'r gymuned, gan fod hynny'n lleihau'r potensial o gael incwm i mewn i'r Cyngor Sir i gynnal y gwasanaethau sydd gennym. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol y byddai'n mynd â'r cwestiwn yn ôl i'r tîm prosiect fu'n gyfrifol am gynhyrchu a llunio casgliadau'r adroddiadau yn yr atodiadau i'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac yn darparu ateb ysgrifenedig i'r aelod a gododd y mater.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Gwella Blynyddol 2018/19, yn amodol ar drafodaethau pellach ar rai eitemau o fewn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 y.h. a daeth i ben am 3.30 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **19 Rhagfyr 2019** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2020/21** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2020** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2020/21.

1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029), rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2019/20) gan y Cyngor Llawn ar 6 Rhagfyr 2018.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

1.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

1.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei newid ar gyfer 2020/21.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

**2. ARGYMHELLION**

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2020 fel ag yr oedd yn ystod 2019/20. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2020/21, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

**3. GWYBODAETH GEFNDIROL**

3.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2013, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (SI 2013/3029) yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

3.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2019/20 gan y Cyngor Llawn ar 6 Rhagfyr 2018. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 4. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2020/21

4.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

4.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

4.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Gellir defnyddio disgresiwn i wneud yn elfennau hyn yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol, ond nid yn llai hael.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

4.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Oherwydd hyn, mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2020/21. Ar ddiwedd Tachwedd 2019, roedd 37 o hawlwyr yn manteisio o'r disgreseiwn yma.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

4.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2019/20 oddeutu £10,000. Yn 2019/20 hyd at ddiwedd Tachwedd, roedd 89 achos lle roedd "taliadau estynedig" o'r fath wedi eu caniatáu yn unol â'r Cynllun Rhagnodedig.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

4.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £11,500 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2019/20, gyda 98 hawliad wedi cael peth elfen o ôl-ddyddio yn 2019/20 hyd at ddiwedd Tachwedd.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**4.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2020/21 yn unol â threfniadau cyfredol 2019/20.**

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

5.2 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

## 6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

6.1 Fel nodir ym Rhan 4 o'r adroddiad yma, yng nghyd-destun y Cynllun Rhagnodedig sydd yn ei le ar gyfer holl hawlwyr Gostyngiad Treth Cyngor ar draws Cymru gyfan, cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol, ar wahân i dri maes penodol iawn.

6.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun cenedlaethol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb. Cynhaliwyd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol yn 2013 pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, a bryd hynny gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r cynllun lleol tra'n cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau.

6.3 Mae'r Cyngor angen penderfynu, felly, yw os ydi'r penderfyniadau a geisir yn 2.1 a) – c) yn effeithio ar unrhyw un sydd ag un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyfan. Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2020/21 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ers 2013. Mae asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn awgrymu fod casgliadau asesiad 2013 yn parhau'n ddilys ac na fydd y penderfyniadau cyfyngedig hyn a geisir yn effeithio unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig yn wahanol i'r boblogaeth gyfan.

## 7. ADNODDAU

7.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yma yn talu'r Cynllun Gostyngiadau yn llawn.

7.2 Bydd rhaid i'r Cyngor ariannu unrhyw gostau'r Cynllun nad ydynt wedi eu cynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

7.3 Mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraniad tuag at gostau'r cynllun o fewn y setliad blynyddol, ond ers sefydlu'r cynllun yn 2013 nid yw'r setliad wedi adlewyrchu'r gwir gost lawn. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2019/20 (yn ôl rhaniad tybiannol cyfanswm yr Asesiadau Gwariant Safonol rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yw £8.829m, ond amcangyfrifir y bydd y gwir wariant oddeutu £9.5m. Nid oes dewis ond wynebu cost parhaus y Cynllun, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2020/21.

7.4 Fodd bynnag, dylid nodi bod gwariant y Cyngor ar y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn lleihau. Mae niferoedd y ceisiadau ar y cyfan ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar draws gogledd a chanolbarth Cymru, a gwelwyd lleihad o bron i 10% dros y cyfnod yng Ngwynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **19 Rhagfyr 2019** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Ioan Thomas**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2020/21 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 50% ar eiddo perthnasol o'r fath.** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o **ail gartrefi** ac **eiddo gwag hir dymor**.
2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.
3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.
4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).
5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor perthnasol am y flwyddyn ariannol 2018/19. Roedd rhaid gwneud y penderfyniad <u>cyntaf</u> i godi "Premiwm ail gartref" o leiaf blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol mae angen gwneud unrhyw benderfyniad dilynol. Ar 6 Rhagfyr 2018, penderfynodd y Cyngor barhau gyda'r cynllun heb newid yn 2019/20.

**ARGYMHELLION**

6. **Argymhellir fod y Cyngor yn gwneud <u>dim newid</u> i'r cynllun ar gyfer 2020/21. Hynny yw, ar gyfer 2020/21:**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
   - **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

**CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL**

7. Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i ganiatáu disgownt, ai peidio, i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthau A a B) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

8. Mae Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B).

9. Yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105) mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

10. Diffinir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

11. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) yn eithrio ail gartrefi Dosbarth A rhag talu'r Premiwm.

**POLISI CYFREDOL A BWRIAD**

12. Roedd y Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan Reoliadau 1998, a hefyd wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ddosbarth C (eiddo gwag) pob blwyddyn ers pan ddiwygiwyd y rheoliadau hynny ar gyfer 2009/10.

13. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

14. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

15. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

16. Roedd rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi "Premiwm ail gartrefi" (dosbarth B) o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Nid yw'r cymal "rybudd blwyddyn" yn berthnasol i eiddo gwag hir dymor, nac i unrhyw benderfyniad ar y Premiwm ail gartrefi ar ôl yr un cyntaf.

17. Mae strategaeth ariannol 2020/21, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2020/21.

18. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

19. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 cyn gwneud y penderfyniad cyntaf i godi Premiwm. Gan nad oes bwriad newid y drefn ar gyfer 2020/21, nid yw cynnal ymgynghoriad pellach yn angenrheidiol.

**AIL GARTREFI**

20. Wrth benderfynu yn Rhagfyr 2016 i godi Premiwm ar Dreth Cyngor ail gartrefi yn 2018/19, rhoddwyd sylw i astudiaethau manwl oedd wedi cael eu cynnal ar effaith ail gartrefi ar gymunedau Gwynedd. Canlyniad y gwaith hwnnw oedd fod ail gartrefi yn cael effaith andwyol ar gymunedau. Nid oes tystiolaeth fod y sefyllfa wedi newid ers hynny.

21. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 yn nodi (yn rhan 6.4.96) fod "*fforddiadwyedd yn fater ar draws ardal y Cynllun*" a bod "*tystiolaeth yn awgrymu bod yr angen am dai fforddiadwy yn uwch mewn pentrefi arfordirol, yn enwedig oddi mewn i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd arfordir Meirionnydd*". Dyma'r ardaloedd gyda'r crynhoad mwyaf o ail gartrefi.

22. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod codi'r Premiwm wedi cael unrhyw effaith ar y diwydiant twristiaeth yn 2018 a 2019.

23. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig, am fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny. Mae'r trosglwyddo wedi cyflymu, ac mae mwyafrif yr eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw dreth yn daladwy arnynt.

24. Ers 1 Ebrill 2014, mae cyfanswm o **1,517** eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig gan fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi eu dynodi'n eiddo hunan-ddarpar yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

25. Mae nifer y trosglwyddiadau yn dangos tueddiad i gynyddu:

| Blwyddyn ariannol | Nifer eiddo'n trosglwyddo |
|---|---:|
| 2019- 20 (hyd at 31/10/2019) | 227 |
| 2018-19 | 454 |
| 2017-18 | 282 |
| 2016-17 | 199 |
| 2015-16 | 167 |
| 2014-15 | 188 |
| **Cyfanswm** | **1517** |

26. Ers i'r mater hwn gael ei ystyried ddiwethaf gan y Cyngor llawn, yn Rhagfyr 2018, mae aelodau a swyddogion y Cyngor wedi parhau i ohebu'n gyson gyda gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru i bwyso arnynt i weithredu i newid y drefn, gan fod hyn yn erydu'r pwrs cyhoeddus yn sylweddol. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd adroddiad i Fforwm Wledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lle cafodd safbwynt Cyngor Gwynedd gefnogaeth yr awdurdodau gwledig eraill yng Nghymru. Mae cwestiynau hefyd wedi cael eu codi ar lawr Y Senedd. Serch hynny, parhau i aros cynigion gan Lywodraeth Cymru mae aelodau a swyddogion y Cyngor.

**EIDDO GWAG**

27. O safbwynt tai gwag, mae'r Cyngor yn datgan "*Gall tai sy'n wag achosi niwsans a difrod i dai cyfagos. Maent hefyd yn wastraff oherwydd gallent gael eu defnyddio fel cartrefi*".

28. Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Ers Ebrill 2018, mae hyn wedi cynyddu i 150% o'r dreth cyngor ar eiddo a fu'n wag am 12 mis neu fwy. Byddai atal y Premiwm, neu gynnig disgownt, yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi o leiaf 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd.

29. Un o prif flaenoriaethau'r Cyngor (Blaenoriaeth Gwella 4) yw "Mynediad at gartrefi addas." Mae hyn yn cynnwys rhaglen o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o dai addas a fforddiadwy.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

30. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

31. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Mae'r asesiad hwn wedi cael ei adolygu pan yn gwneud y penderfyniad blynyddol ynglŷn â pharhau i godi premiwm. Nid ydym yn credu fod materion cydraddoldeb penodol sydd angen tynnu sylw'r Cyngor atynt wrth ystyried y mater yma, a rydym o'r farn fod yr AEC yn parhau'n ddilys.

32. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth ystyried cyflwyno'r Premiwm yn wreiddiol i'w gael yma:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s8778/Premiwm%20Treth%20Cyngor%20-%20Atodiad%204.pdf?LLL=1

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

33. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

34. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd (ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn) wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Rhain yw:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

35. Pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol yn 2016 i godi Premiwm Treth Cyngor, rhoddwyd sicrwydd fod ystyriaeth wedi ei roi i'r materion hyn. Roedd cynnwys yr adroddiad hwnnw yn dangos fod y argymhelliad i godi Premiwm wedi ei wneud yng nghyd-destun ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor. Roedd y gwaith ymchwil sylweddol a wnaed yn y blynyddoedd cyn i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym, ac yna cyn gwneud y penderfyniad cyntaf i godi'r Premiwm, yn dangos y byddai cyflwyno'r Premiwm ar ail gartrefi a thai gwag hir dymor yn cyfrannu tuag at wireddu'r amcan o gael Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor. Nodir yn arbennig fod y penderfyniad i godi'r Premiwm wedi ei wneud yng nghyd-destun ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ac er mwyn cymryd camau i leihau diboblogi mewn nifer o gymunedau o fewn Gwynedd.

**DEFNYDD CYNNYRCH Y PREMIWM**

36. Cymeradwywyd Cyllideb 2019/20 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Wrth wneud hynny, penderfynwyd neilltuo cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm yn 2019/20 i gronfa benodol i'w ddefnyddio er mwyn ariannu Strategaeth Tai y Cyngor, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau. Roedd £2.03m wedi'i neilltuo yng nghyllideb gwreiddiol 2018/19, ac amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm ychwanegol yn 2019/20 trwy godi'r Premiwm.

37. Amcangyfrifir y bydd cynnyrch y Premiwm yn parhau i fod oddeutu £2.7m y flwyddyn.

38. Bydd y Cyngor llawn yn ystyried Cyllideb 2020/21 ar 5 Mawrth 2020, a fydd yn cynnwys gwybodaeth pellach am ddefnydd o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor yma.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Fel y nodir yn yr adroddiad mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'n briodol felly fod penderfyniad ar gyfer Disgowntiau a Premiwm Treth Cyngor yn derbyn ystyriaeth gan y Cyngor Llawn.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19eg o Ragfyr 2019** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymateb Cyngor Gwynedd i Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Tachwedd 2019** |
| **Aelod Perthnasol:** | **Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Geraint Owen,Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth<br>Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol** |

### 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir copi o'r adroddiad drafft sy'n cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 17eg o Ragfyr, 2019.

1.2 Yn dilyn ystyriaethau'r Cabinet ar y 17eg o Ragfyr, bydd yr Arweinydd yn cyflwyno argymhelliad y Cabinet i gyfarfod y Cyngor er mwyn galluogi y Cyngor i ystyried ymateb terfynol i Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.3 Cymeradwyo'r ymateb drafft fel sail i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil.

1.4 Dirprwyo'r hawl i'r Arweinydd i ymateb ar ran y Cyngor gan addasu y ddogfen ddrafft i adlewyrchu sylwadau'r Cyngor.

### 2. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Gweler y sylwadau ar y ddogfen i'r Cabinet

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Gweler y sylwadau ar y ddogfen i'r Cabinet

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **17 Rhagfyr 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**<br>**Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymateb Cyngor Gwynedd i Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Tachwedd 2019** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Tachwedd 2019 er ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 19 Rhagfyr 2019.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys ymateb y Cyngor i'r Bil a bod y Cabinet wedi cael cyfle i roi mewnbwn i'r cynnwys.

### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Tachwedd 2019 wedi ei gyhoeddi er ymgynghoriad. Mae dyddiad ymateb i'r ymgynghoriad ar y 3ydd o Ionawr, 2019. Ceir dolen i'r manylion llawn isod – **nid oes angen printio**.

Dolen

### 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 19eg o Ragfyr 2019.

### 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Gofynnwyd am sylwadau gan ofyn

5.2. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Rwyf yn gyd-awdur o'r adroddiad hwn.

### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig ddeddfwriaeth gynhwysfawr fydd yn effeithio ar sawl agwedd o lywodraethiant awdurdodau lleol. Fel mae'r ymateb yn nodi, mae oblygiadau ariannol anorfod yn deillio o rai o'r gofynion hyn. Mae posibilrwydd cryf, er enghraifft, y bydd rhai o'r Cydbwyllgorau Corfforedig angen cefnogaeth gweinyddol arwyddocaol. Nodaf fod y gofyn am gynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau lleyg ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau o'r Bil blaenorol a gyhoeddwyd yn 2015. Bryd hynny, mynegwyd pryderon gan y Pwyllgor am hyn, a nid oes unrhyw reswm i feddwl fod y farn yma wedi newid yn y cyfamser.

Mae Rhan 8 y Bil yn cyfeirio at Gyllid Llywodraeth Leol, a'r maes trethiant lleol yn benodol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cynigion yn Rhan 8, gan fod rhain yn ddatblygiadau positif ym maes trethiant lleol."

## Atodiad

Sylwadau Cyngor Gwynedd ar ymgynghoriad Tachwedd 2019 - Ymateb drafft

ymateb drafft

## BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)
## SYLWADAU CYNGOR GWYNEDD AR YMGYNGHORIAD TACHWEDD 2019

RHAGYMADRODD

1. Cyhoeddwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Tachwedd 2019 er ymgynghoriad. Mae dyddiad cau er ymateb i'r ymgynghoriad ar y 3ydd o Ionawr, 2020.

2. Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau, ond cyn mynd at y sylwadau hynny, mae yna rhai pwyntiau sylfaenol ac allweddol y mae'r Cyngor yn dymuno eu gwneud.

3. Hoffem nodi fod yr amserlen sydd wedi ei chynnig ar gyfer ymgynghori yn eithriadol o dynn ac annheg i'n galluogi i roi ystyriaeth lawn a theg i ddogfen gyfreithiol gymhleth - yn arbennig gan fod cryn oblygiadau i lywodraeth leol i weithredu rhai elfennau o'r Bil. Wrth dderbyn bod elfennau wedi eu trafod eisoes ar hyd y daith gyda'r Bil, mae'r etholiad cyffredinol yn annatod yn dylanwadu ar sgôp y trafodaethau gwleidyddol y mae posib eu cynnal, ac ar argaeledd swyddogion arbenigol yn y maes i gynnir cyngor gan eu bod ynghlwm â gwaith o baratoi at yr etholiad. Yn ogystal, mae'r cyfnod yn dilyn 12fed o Ragfyr hyd at y 3ydd o Ionawr yn fyr yn sgil gwyliau'r Nadolig.

4. Elfen arall sydd angen sylw penodol yw'r gydnabyddiaeth o'r angen am Adnoddau ychwanegol i weithredu ar rhai elfennau o'r Bil. Rhaid nodi fod cost ychwanegol amlwg ynghlwm â rhai elfennau, megis gweddarlledu cyfarfodydd.

5. Nid ydym am gynnig sylwadau ar bob maes yn unigol o fewn y cyfyngiad amser sy'n bodoli. Rydym wedi cefnogi rhannau helaeth o'r cynnwys mewn ymatebion blaenorol, ac rydym yn pwysleisio ein barn a'n ymateb blaenorol ar gyfer y meysydd hynny.

6. Mae ein prif sylwadau a chonsyrn y tro hwn yn ymwneud â **Rhan 5 y Bil - Cydweithio gan Brif Gynghorau,** yn arbennig Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC).

7. Yn bennaf, teimlir y byddai creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar sail y model yn y Bil yn creu haen arall o lywodraeth leol, gyda'r effaith fod democratiaeth a phenderfyniadau yn ymbellhau ymhellach oddi wrth y dinesydd. Nid yw'r Bil yn darparu eglurdeb ynglŷn â sut ac ym mha fodd y byddai swyddogaethau nad ydynt yn perthyn i weithrediaeth yn cael eu cyfarch yn y gyfundrefn. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu'r Fframwaith Bolisi a Chyllid. Mae cyd weithio effeithiol yn seiliedig ar achos busnes eglur dros gyfuno ond hefyd cydsyniad a chytundeb gan y Cynghorau ynglŷn â'r cyfeiriad strategol. Mae hyn yn elfen allweddol i lwyddiant cyd-weithio nad yw yn amlygu ei hun mewn dogfennau cyfansoddiadol neu ddeddfwriaeth. Yr hyn sydd yn nodweddiadol o gydbwyllgor o'i gymharu ag awdurdod rhanbarthol yw atebolrwydd i'r fam awdurdodau. Byddai'n angenrheidiol i'r trefniadau gyfarch hynny yn arbennig felly os yw'r CBC yn arddel pwerau strategol a chyllidol. Heb hyn byddai'n mynd yn groes i ysbryd y Bil o fod yn ceisio annog a hybu mynediad at Lywodraeth Leol a chymryd rhan a dylanwadu ar benderfyniadau.

8. Ochor arall y geiniog yw'r pryder am rôl Arweinyddion yr awdurdodau presenol mewn perthynas â threfniadau o'r fath, yn arbennig y pwysau trwm a fyddai'n annatod ar eu hysgwyddau. Mae modelau cyd-weithredol e.e Gwasanethau Gwella Ysgolion yn golygu fod aelodaeth y Cyd Bwyllgorau yn cael eu tynnu o blith yr aelodau Cabient perthnasol sydd yn uniongyrchol atebol i'w Hawdurdodau am y gwasaneth. Mae'r model fel y'i nodir uchod yn anorfod yn gwanio yr atebolrwydd yma a'r cyswllt uniongyrchol yma.

9. Dylid hefyd nodi ein bod o'r farn nad yw'r hyn sy'n cael ei gynnig yng nghyd-destun cydbwyllgorau corfforedig yn ddigon hyblyg. Er enghraifft, mae'r cais i adnabod yr ôl-troed y byddem yn dymuno gweithio arno yn creu anhawster yno'i hun. Nid cyd-weithio ar draws Gogledd Cymru fyddai'r ateb gorau o anghenraid ar gyfer pob maes. Rydym eisoes yn cydweithio ar hyd arfordir y Gorllewin ar gyfer rhai datblygiadau, a gyda Môn ar faterion eraill. Nid oes hyblygrwydd digonol yn y Bil ar gyfer addasu i ofynion lleol a'r trefniadau lleol gorau. Nid ydym yn dadlau fod profiad o weithio ar y cyd wedi adnabod agweddau ble y gellir gwella'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau penodi a gosod cyflogau ar y cyd, dal eiddo a gweithredu hawliau cyfreithiol megis ffurfio cwmnïau. Mae cyfle yn y ddeddfwriaeth yma i ddarparu opsiwn llywodraethu all gefnogi a chryfhau trefniadau cyd weithio llwyddiannus presennol. Fodd bynnag rydym o'r farn fod clymu'r atebion i strwythur caeth sydd yn cael ei ffurfio drwy ddeddfwriaeth yn creu risg y byddwn yn gwanhau'r cyd-weithio presennol drwy symud ffocws a chymylu atebolrwydd.

10. Yn y bôn, rydym o'r farn mai ar lawr gwlad y dylai unrhyw drefniadau o'r fath gychwyn, hynny yw, trwy'r awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned. Rhaid i Awdurdodau Lleol fod yn glir o'r budd o sefydlu trefniadau, ac mae perchnogaeth leol i adnabod y ffordd orau ymlaen yn allweddol. Fel arall mae ymdeimlad mai ad-drefnu llywodraeth leol trwy'r drws cefn yw hyn, ac rydym yn gwrthwynebu hynny yn gryf.

Ymateb drafft

11. Mae rhai materion pellach ar benodau eraill y dymunwn ddwyn i'ch sylw isod.

**RHAN 1 – ETHOLIADAU**

Sylwadau – yn gyffredinol rydym yn gefnogol i'r egwyddorion hyn.

- Rydym yn cefnogi'r bwriad i ehangu'r hawl i bleidleisio, ond mae angen sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu darparu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gyfer gweithredu a hyrwyddo'r newid.
- Rydym yn cefnogi'r cysyniad o ddefnyddio sustem pleidlais sengl drosglwyddadwy. Fodd bynnag nid ydym yn ystyried fod yr angen yn Adran 12 yn angenrheidiol ac yn tanseilio safbwynt y Cyngor fod wardiau un aelod yn darparu'r cyswllt cryfaf a'r gymuned. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer wardiau un aelod yn Adran 6(2)(b) a mater i'r broses adolygu ffiniau gan y Comisiwn Finiau a Democratiaeth Leol ddylai argymell ffurf a natur y wardiau.
- Yn yr un modd rydym yn croesawu'r egwyddor ddylai weithredu i gynyddu Cofrestru Etholiadol. Fodd bynnag gan ei fod wedi ei gyfyngu i etholiadau Senedd Cymru a Llywodraeth Leol ni fydd yn berthnasol i etholiadau neu refferenda DU. Mae profiad megis yn ystod y canfas yn dangos fod sgôp am ddryswch gydag etholwyr os nad yw'r broses cofrestru yn osgoi cymhlethu. Tybiwn fod risg cyffelyb yn deillio o gael proses 2 drac fel hyn ac mae angen cyfarch hyn.
- Wrth ddeall yr egwyddor o geisio sicrhau fod y pwl o bobl sy'n sefyll yn ehangu ac ehangach, mae gennym bryder penodol am yr elfen yma. Rydym yn credu ei bod yn annoeth i roi'r gallu i staff sy'n gyflogedig gan yr awdurdod i sefyll etholiad yn y Cyngor y maent yn gweithio ynddo.

**RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL**

Sylwadau –

- Rydym yn croesawu'r egwyddor, ond mae rhai dal sylw at y cyfyngiadau o amgylch deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Gresyn nad yw'r cyfle i ehangu ar y pŵer yn Lloegr wedi ei gymryd drwy leihau'r cyfyngiadau. Mae profiad o Loegr yn awgrymu nad yw'r pŵer yn y ffurf yma, er yn ddefnyddiol, wedi bod yn gyfrwng i newid sylweddol yng ngweithgareddau Cynghorau . Fodd bynnag mae Adran 35 yn rhoi sgôp i ddatblygu'r defnydd o'r Pŵer Cyffredinol drwy'r Gweinidog. Gobeithio y gwelir parodrwydd a hyblygrwydd i ddefnyddio'r drefn yma i gefnogi gwaith Awdurdodau Lleol.
- Yn ogystal rydym yn cytuno fod angen y pwerau hyn i sicrhau Cynghorau Cymuned Cymwys ac maent am fod o gymorth i sicrhau cydweithio. Fodd bynnag, mae angen ystyried hefyd beth sy'n digwydd i gynghorau cymuned nad ydynt yn gymwys. Efallai y dylai'r gwaith o adolygu cynghorau tref a chymuned ddigwydd yn gyntaf.

**RHAN 3 – HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL**

Sylwadau –

- Mae'r egwyddor o annog trigolion i gyfranogi pan fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau yn cael ei gefnogi gan Gyngor Gwynedd . Mae hyn yn digwydd yn helaeth eisoes drwy ddyletswyddau i ymgynghori ac ymgysylltu a gweithredu deddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015. Oherwydd hyn ystyrir ar un lefel fod gosod dyletswydd statudol benodol ar gyfer holl benderfyniadau yn ddiangen gan fod y gofynion a amlygir isod yn golygu fod llais y trigolion yn rhan annatod o benderfyniadau sylweddol neu arwyddocaol. Yn

ymateb drafft

| |
|---|
| ychwanegol drwy osod dyletswydd statudol bydd gofyn ychwanegol ar bob penderfyniad boed ar lefel Cabinet neu Swyddog i ddangos sut mae'r ddyletswydd yn cael ei gyfarch. Rydym yn bryderus nad yw arwyddocâd gosod y gofyn mewn telerau dyletswydd statudol eang wedi ei lawn gloriannu.<br>• Mae'r Bil yn gofyn i'r Strategaeth ddatgan y canlynol: (d) dulliau o hybu a hwyluso prosesau lle gall pobl leol gyfranogi , neu i awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor, am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud; "awdurdod cysylltiedig" Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gyngor Cymuned.<br>Mae'r awdurdodau cysylltiedig yn gorfforaethau annibynnol o'r Prif Gynghorau ac yn ddarostyngedig i'w trefniadau llywodraethu statudol eu hunain. Nid yw'r cyfiawnhad am yr elfen yma o'r ddyletswydd wedi ei amlygu ac mae'n gosod gofynion newydd a sylweddol ar Brif Gynghorau o safbwynt ymyrraeth yn llywodraethiant y cyrff yma. Yn achos Gwynedd e.e mae hyn yn golygu 64 o Gynghorau Cymuned.<br>• Wrth gydweld hefo'r egwyddor i geisio mynediad at gyfarfodydd (trwy we-ddarlledu), mae angen rhoi sylw penodol i'r adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dasg. Mae'r amcan bris o £12k y flwyddyn yn rhy isel i ddygymod gyda'r gofynion ychwanegol o'r ddeddf ee lleoliadau ychwanegol a sicrhau darpariaeth ddwyieithog.<br>• Eto rydym yn cefnogi rhoi hyblygrwydd i'r Cynghorau ynglŷn â threfniadau mynychu o bell, ond mae goblygiadau Adnoddau i sicrhau darpariaeth ddwyieithog safonol. |

| **RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL** |
|---|
| Sylwadau –<br>• Rydym yn cydweld y byddai gallu penodi cynorthwywyr (o blith aelodau) i aelodau'r weithrediaeth, fyddai'n gallu gweithredu ar eu rhan o bryd i'w gilydd, yn annog amrywiaeth o bosib. Fodd bynnag, mae amheuaeth am sut y byddai'n gweithio yn ymarferol, yn arbennig gan y gall barn wleidyddol wahaniaethu. Hefyd, o ran sicrhau cyflog iddynt, mae'r *r mesur yn datgan nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth felly ar sail llythyrau blynyddol presennol ni ellir talu cyflog. Ydy cyfyngiadau megis aelodaeth o Bwyllgor Craffu yn ymestyn iddynt?* Yn yr un modd mae'r elfen i ganiatáu rhannu swyddi ar gyfer aelodau'r weithrediaeth yn sicr am annog amrywiaeth. Fodd bynnag, gallai fod yn ymarferol heriol ee petai safbwyntiau gwleidyddol yn amrywio rhwng y ddau aelod rhannu swydd ac yn gallu creu dryswch.<br>• Rydym yn cytuno a'r rôl i arweinyddion gwleidyddol i hybu safonau o fewn aelodau o'u grŵp. Bydd yn gyfrwng i gael y drafodaeth rhagflaen a datrys materion. Rhaid gwerthfawrogi fod safbwynt y llysoedd mewn achosion megis Calver* ar Erthygl 10 yn gosod y rhiniog o safbwynt cwynion aelod ar aelod.<br>• Mae'r bil yn rhoi'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cydbwyllgorau trosolwg a chraffu pan fo gwasanaethau yn cael eu darparu ar y cyd. Mae'r hawl i sefydlu Pwyllgorau o'r fath yn bodoli eisoes. Nid yw'r ddadl o blaid gorfodaeth yn cael eu hamlygu gan fod unrhyw drefniadau cyd-weithio rhwng Awdurdodau Lleol yn anorfod yn ymdrin â threfniadau craffu gyda threfniadau cyfredol yn gweithredu fel yr opsiwn gwrthgefn. |

ymateb drafft

| RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU |
|---|
| • Gweler y sylwadau sydd wedi eu cynnwys eisoes ym mhrif negeseuon ein hymateb. |

| RHAN 6 – PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU |
|---|
| Sylwadau –<br>• Mae'r prif sylwadau gennym ynghylch yr opsiwn arfaethedig ar gyfer rôl ac aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn bennaf ynghylch cynyddu niferoedd aelodau lleyg i fod yn draean o aelodau'r pwyllgor. Wrth gydweld fod budd i sicrhau aelodau lleyg ar y pwyllgor, nid ydym yn cyd-weld fod angen i draean o aelodau y pwyllgor fod yn aelodau lleyg. Dylid gadael i bod awdurdod lleol yn unigol i bennu y canran o aelodau lleyg ar y pwyllgor. |

| RHAN 7 – UNO AC AIL STRWYTHURO PRIF ARDALOEDD |
|---|
| Sylwadau –<br>• Mewn ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol rydym eisoes wedi datgan y dylid bod yn glir beth yw budd unrhyw gyd-weithio cyn bwrw ymlaen i sefydlu unrhyw drefniadau. Mae'n wir ar gyfer cyd-weithio ar sail rhanbarthol neu is-ranbarthol. Mae'r un egwyddor yn bodoli ar gyfer ymuno Awdurdodau lleol yn wirfoddol, gorfodol neu drwy unrhyw drefniadau llywodraethu. Gweler ein sylwadau yng nghorff yr adroddiad. |

| RHAN 8 - PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU |
|---|
| Sylwadau –<br>• Rydym yn croesawu'r cynnig i newid y ddeddfwriaeth gynradd fel bod y lluosydd Ardrethi Annomestig yn cynyddu'n flynyddol gyda'r cynnydd yn y mynegai CPI yn hytrach na'r mynegai RPI. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu nad oes angen cyflwyno deddfwriaeth eilradd yn flynyddol, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd diweddar, i gael yr un effaith. Dylai'r newid olygu llai o gynnydd blynyddol ym miliau Ardrethi Annomestig.<br>Mae'r awdurdodau bilio a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd wedi bod yn rhwystredig gyda'r diffyg grym cyffredinol sydd wedi bod ar gael i awdurdodau bilio fynd i'r afael ag osgoi Ardrethi Annomestig. Bydd y pwerau sydd yn y Bil yn gymorth i leihau osgoi o'r fath, gan gryfhau ychydig ar y pwrs cyhoeddus. Fel awdurdod bilio, mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r bwriad yma.<br>• Ar y llaw arall, mae'r Bil hefyd yn addasu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i ddiddymu'r grym i awdurdodau lleol wneud cais i draddodi unigolyn i garchar am beidio talu Treth Cyngor. Mae'r grym hwn eisoes wedi cael ei dynnu i ffwrdd trwy reoliadau, a rydym yn cydnabod mai pwrpas y newid pellach yma yw er mwyn ei osod mewn deddfwriaeth gynradd, fydd yn anoddach ei wyrdroi yn y dyfodol. Er o bosib bydd ychydig o ddirywiad yn y gyfradd gasglu o ganlyniad, nid ydym yn gwrthwynebu'r hyn a fwriedir. |

Ymateb drafft

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Rhagfyr 2019** |
| **Adroddiad gan** | **Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Argyfwng Newid Hinsawdd** |

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud a newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy –

    - Ddatgan Argyfwng Hinsawdd;
    - Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon;
    - Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
    - Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon;
    - Galw ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a 'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

2. Yn unol a'r cais, mae'r adroddiad yma yn adrodd yn ôl ar y camau y mae'r Cyngor wedi eu cymeryd hyd yma.

3. **Mae'n bwysig nodi mai adroddiad yw hon ar ble yr ydym wedi ei gyrraedd hyd yma ac nid yw'n adlewyrchu ble yr hoffem fod yn y pen draw**. Serch hynny, mae'n bwysig yn yr hinsawdd ariannol bresennol ein bod yn cymryd ychydig o amser i adnabod y pethau hynny sydd am gael yr ardrawiad mwyaf er mwyn cael y budd mwyaf o unrhyw fuddsoddiad y bydd angen i ni ei wneud.

4. Ynghlwm yn Atodiad 1 y mae yna dabl sy'n nodi'r gweithgareddau a ymgymerwyd eisoes gan y Cyngor i leihau ôl troed carbon y sir ac i addasu ein cymunedau rhag sgil effeithiau sy'n debygol o godi .

5. O ran ôl troed y Cyngor ei hun fe welir yn Atodiad 2 graff sy'n dangos sut y mae'r Cyngor wedi lleihau ei ôl troed Carbon ers 2010.

6. Erbyn diwedd 2018 'roeddem wedi lleihau ein ôl troed o 39%. Mae hyn yn amrywio yn ôl tarddiad y defnydd carbon, gydag ôl troed sy'n deillio o oleuadau stryd wedi gostwng 59%; ol troed o adeiladau wedi gostwng 43% ond ôl troed ein fflyd ddim ond wedi gostwng 20%.

7. Fe welir felly bod y Cyngor eisoes wedi gwneud lot fawr o waith i leihau ei ôl troed carbon ac i addasu ein cymunedau yn sgil yr hyn y bydd newid hinsawdd yn ei olygu i'r dyfodol.

8. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion yma, gwyddom bod yna lawer mwy i'w wneud eto os ydym am gyrraedd y nod o gael sir di-garbon.

9. Mae'r Cabinet wedi sefydlu tasglu i ystyried beth ymhellach sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hynny a'r bwriad yw sefydlu Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd fydd yn manylu ar y gweithredoedd ychwanegol hynny y byddem am eu cyflawni tu hwnt i'r hyn a wnaed gennym eisoes. Bydd hynny yn cynnwys yr hyn y gallwn ei wneud i leihau ôl troed Gwynedd fel sir yn ogystal a'r Cyngor ei hun.

10. Er mwyn rhoi strwythur i'r ystyriaeth o beth pellach y gallwn ei wneud, 'rydym yn ystyried dogfennau a gyhoeddwyd gan Gyfeillion y Ddaear a byddwn hefyd yn ystyried gwaith sydd yn cael ei wneud gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar lefel ranbarthol i'n goleuo ar y cyfleoedd pellach sydd ar gael i ni.

11. Mae'r hyn a nodir yn Atodiad 1 yn dilyn y penawdau a nodwyd yn nogfen Cyfeillion y Ddaear ac yn nodi ble 'rydym ar hyn o bryd. Gwaelodlin o ble ydan ni heddiw ydyw i bob pwrpas.

12. Y bwriad ar gyfer y 3 mis nesaf yw ymgynghori ar gynnwys unrhyw Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn ymgorffori'r Cynllun hwnnw yn ein Cynllun Corfforaethol.

13. Bydd gan pob aelod o'r Cyngor rôl i chwarae wrth ystyried sut orau i leihau ôl troed carbon y sir a sut i addasu er mwyn dygymod a'r sgil effeithiau newid hinsawdd ac wrth i ni gynnal y sgyrsiau hynny gyda'r cymunedau byddwn yn edrych ymlaen at i bawb chwarae eu rhan yn y broses honno.

14. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad gan nodi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r bwriadau ar gyfer y dyfodol.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad priodol I'r Cyngor yn sgil ei benderfyniad ym Mis Mawrth. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth Cyllid**

Mae'n amlwg y bydd yr hyn sydd angen i Cyngor Gwynedd ei wneud i fynd i'r afael â'r Argyfwng Newid Hinsawdd yn golygu newidiadau sylweddol ac arwyddocaol mewn ymddygiad. Gall hyn, yn yr hir-dymor, olygu newid cyfeiriad yn ein gwariant dydd-i-dydd yn ogystal â buddsoddiadau mewn cynlluniau cyfalaf. Wrth gwrs, mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) eisoes yn ein cymell i feddwl am effeithiau hirdymor ein penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau gwariant. Gan mai gosod meincnod yw bwriad yr adroddiad yma, nid yw'n gosod ymrwymiad gwariant ychwanegol ar y Cyngor ynddo'i hun, ond bydd effaith yr argyfwng hinsawdd yn ystyriaeth barhaus wrth baratoi strategaethau ariannol yn y dyfodol

# CYFEILLION Y DDAEAR : Datblygu Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur

**RHOI EIN HINSAWDD WRTH GALON Y PENDERFYNIADAU A WNAWN**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | Mynnu fod cynghorwyr yn nodi p'un a fyddai'r argymhellion a gyflwynir iddynt yn helpu neu'n llesteirio'r hinsawdd, llygredd aer a chynlluniau natur | | Mae'n anorfod fod Cynghorwyr yn ystyried sgil effaith ar hinsawdd yr amgylchedd wrth wneud penderfyniadau ac mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu fod yn rhaid i ni ystyried unrhyw bederfyniad yng nghyd destun a yw'n gynaliadwy neu beidio. Rydym angen ystyried ymhellach a ddylid a sut i roi'r un pwyslais ar effaith hinsawdd ag a roddir ar faterion fel cydraddoldeb dyweder. |
| 2 | | Nodi cynghorydd ar lefel cabinet a swyddog arweiniol fel Hyrwyddwyr Hinsawdd a Natur lle mae gofyniad arnynt i gyhoeddi adroddiad annibynnol, wedi'i archwilio, ddwywaith y flwyddyn, i'r cyhoedd ar y cynnydd a wnaed ar gyflawni'r targedau newid hinsawdd a natur. | | Mae gan y Cyngor Adran Amgylchedd gydag aelod cabinet yn gyfrifol am arwain gweithgareddau'r adran honno. Fodd bynnag cydnabyddir o fod yn datgan argyfwng hinsawdd y bydd angen i holl adrannau'r Cyngor chwarae eu rhan a bydd angen ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau fod hynny yn digwydd. Bydd angen i'r tasglu ystyried y trefniadau rheolaethol priodol i gydfynd a chyfundrefnau cydanbyddedig y Cyngor. Ar hyn o bryd mae gwaith y Cyngor i leihau Carbon ac i addasu cymunedau yn cael ei adrodd drwy ein trefniadau rheoli perfformiad arferol yn hytrach na thrwy gyhoeddi adroddiad ar wahan. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | | Defnyddio dulliau ychwanegol wrth benderfynu ynghylch materion cymhleth neu gynhennus (megis Cynulliad Dinasyddion/Rheithgor Dinasyddion, mapio a chyllidebu cyfranogol, ac ati). | | Mae'r drefn ddemocrataidd cynrychioliadol sydd gennym yn golygu mai aelodau etholedig sydd yn gyfrfiol am wyntyllu dyheadau eu hetholwyr. Wedi dweud hynny, rydym yn defnyddio Paneli Trigolion ac yn ymgynghori yn eang ar faterion lle bydd yna ddewisiadau pell gyrhaeddol i'w gwneud. Yn amlwg yn y maes yma bydd angen cynnwys ein cymunedau mewn unrhyw drafodaethau os ydym am gael trigolion y sir i berchnogi'r gweithgareddau y bydd angen eu cyflawni os am leihau ol troed carbon y sir, ond yn y pen draw bydd yn rhaid i'r aelodau etholedig wneud y penderfyniadau angenrheidiol. |
| **4** | | Gosod targedau dros dro a mesuradwy ar gyfer Gwynedd i ostwng allyriadau tŷ gwydr net i ddim a chyflawni nodau adfer natur. | | Ein deheuad yw i fod yn cyrraedd gostyngiadau nwyon net i ddim a chwrdd ag amcanion adfer natur , ond mae trefn Ffordd Gwynedd yn ein hannog i beidio gosod targed penodol erbyn amser penodol yn groes i egwyddorion gweithredu'r Cyngor (gan nad oes modd darogan yr amser y mae angen ei gymryd i wneud pethau'n iawn). Fodd bynnag mae ein egwyddorion hefyd yn nodi bod angen mesur cynnydd yn erbyn yr amcan yma ac ystyried yn gyfnodol a yw cynnydd yn dderbyniol neu beidio. Ni ddylai hynny effeithio ar ein huchelgais yn y maes yma. |
| **5** | | Alinio holl gynlluniau statudol ac anstatudol Gwynedd, ei bolisïau a chanllawiau gyda llwybrau gostwng carbon a chynlluniau adfer natur perthnasol, gan gynnwys caffael. | | Mae ein hystyriaethau caffael wastad yn ystyried effaith ein pryniant ar yr amgylchedd. Yn ogystal, mae sgôp yma, trwy bolisïau cynllunio ein Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiadau cynaliadwy, i fod yn sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael eu rhoi i'r holl faterion amgylcheddol, pan yn berthnasol, fel bod datblygiadau eraill ddim yn cael effaith andwyol ar ein hamgylchedd ac ein hinsawdd. Gweler rhan 6.2 a 6.5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: |
| | | | | Gweler hefyd linc i'r Canllaw Cynllunio Atodol Creu Cymunedau Cynaliadwy a Nodedig: Mae hefyd wrth gwrs, canllawiau a deddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd sydd angen eu hystyried yng nghyd-destun ein Amgylchedd a newid hinsawdd. Mae trefniadau cadarn yn eu lle er sicrhau fod cyrff statudol fel y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol eu hunain ond yn ogystal yn gallu sicrhau bod eraill yn cydymffurfio yn ogystal. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6** | | Adolygu a gwella sut ydym yn cynnwys dinasyddion yn ein prosesau penderfynu presennol. | | Mae deall beth yw anghenion a blaenoriaethau ein trigolion yn fater pwysig iawn i Gyngor Gwynedd. Wrth i ni ddatblygu Cynllun Gweithredu byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys ein cymunedau yn y sgyrsiau fydd angen eu cynnal er mwyn cael y dealltwriaeth hynny, ac o gofio ein bod yn anelu i leihau ol troed carbon y sir, bydd sicrhau perchnogaeth gan ein rhaglen ymysg trigolion y sir yn golygu y bydd yn rhaid i ddinasyddion fod yn rhan o'r broses. Yn y pen draw fodd bynnag yr aelodau etholedig fydd yn gorfod dod i benderfyniadau. |

**CODI ARIAN**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **7** | | Cyflwyno ardoll parcio ceir yn y gweithle ac/neu fenter gyffelyb i ariannu cludiant cynaliadwy. | | Mae cynllun codi tal ar swyddogion i barcio wedi ei ystyried gan y Cyngor nifer o flynyddoedd yn ol ac yr oedd yn anodd iawn gweithredu ar hyn gan nad oedd cytundeb gan yr Undebau i fod yn gweithredu. Wedi dweud hyn, does dim o'i le i ni fel Cyngor fod yn annog ein swyddogion i fod yn defnyddio dulliau sydd yn fwy caredig at yr amgylchedd i deithio i'r gwaith. Yn sicr mae gan yr Adrannau lawer o ddylanwad i sicrhau fod y teithiau ar gyfer gwaith yn cael eu gwneud, dim ond pam fod angen ac mewn modd sydd yn garedig i'r amgylchedd. Yn ychwanegol i hyn mae'r Cyngor yn edrych i newid eu fflyd cerbydau teithio bychain, o fewn y 5 mlynedd nesaf, i fod yn gerbydau trydan. Lansiwyd cerbyd trydan cyntaf y Cyngor yn swyddogol ar 14 Tachwedd 2019. Mae mannau gwefru yn cael eu gosod yn swyddfeydd a depos y Cyngor. Felly, mae cynllun yn ei le i sicrhau fflyd cyngor sydd yn fwy caredig at ein amgylchedd. |
| **8** | | Codi arian o Asiantaeth Bondiau Trefol y Deyrnas Gyfunol ar gyfer seilwaith carbon isel. | | Os bydd angen buddsoddi, mae yna nifer o ffynhonellau ariannu ar gael i'r Cyngor a mater o sicrhau ein bod am fedru ad-dalu unrhyw fenthyciad yw'r mater sydd angen ystyriaeth nid o ble y byddai'r fath arian yn dod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **9** | | Defnyddio gweithdrefnau cyfreithiol a chynllunio, megis cytundebau Adran 106, Ardoll Seilwaith Cymunedol a dulliau eraill i ariannu camau gweithredu ynghylch yr hinsawdd a phrosiectau adfer natur. | | Mae Cytundebau 106 yn galluogi awdurdodau cynllunio gyfyngu defnydd tir / datblygiad (e.e. ar gyfer tai fforddiadwy), ac i sicrhau cyfraniadau ariannol er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol yn sgil datblygiad. Gall hyn gynnwys cyfraniad tuag wasanaethau lleol a neu gwaith adfer amgygylcheddol, lle bo rhesymau cynllunio yn tystiolaethu hynny. Gweler rhan 6.1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn cyfeirio at Isadeilied a chyfraniadau datblygwyr<br><br>Gweler hefyd linc i'r Canllaw Cynllunio Atodol ar ymrwymiadau cynllunio |
| **10** | | Mynd ati i drwyddedu'r sector rhentu preifat i ymdrin â chostau gorfodi'r safonau effeithiolrwydd ynni isaf. | | Pan mae tai newydd yn cael eu hadeiladu mae sicr safon pendant sydd yn cael ei osod o dan ddeddfau rheolaeth adeiladu. Mae'r Cyngor yn medru cadarnhau'r safonau yma i sicrhau fod yr adeiladau newydd wedi eu hinsiwleiddio i'r safonau uchaf. Mae yn wahanol pan mae adeilad yn bodoli yn barod ac er bod y Cyngor ei hun yn sicrhau bod eu hadeiladau yn cael eu hinsiwleiddio i'r safon uchaf mae hi yn anodd iawn i'r Cyngor fod yn gorfodi landlordiaid i fod yn insiwleiddio eu heiddo. Bwriad y Cyngor yw sicrhau fod pob anogaeth yn cael ei roi i landlordiaid ac i drigolion yn gyffredinol i fod yn insiwleiddio eu tai nid yn unig i fod yn cael effaith bositif ar yr amgylchedd arbed llawer iawn o arian i'n trigolion. Mae cynlluniau yn bodoli megis " Cynllun Nyth" sydd yn cael ei redeg dan faner Llywodraeth Cymru ac mae cyfleoedd i landlordiaid a thrigolion yma gael boleri sydd yn fwy effeithiol a chael insiwleiddio eu tai yn eithaf rhad. |

**AMDDIFFYN Y RHAI MWYAF BREGUS**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **11** | | Nodi'r bobl fwyaf bregus yn yr ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd a lefelau gwres uchel a thargedu polisïau addasu, camau gweithredu a gwariant i'r ardaloedd hyn. | | Mae newid hinsawdd wrth gwrs yn cael cryn dipyn o effaith ar ein tywydd ac ar lefelau'r môr ac rydym yn gweld yr effaith nawr. Mae'n debygol y bydd hyn yn gwaethygu yn y dyfodol. Mae llifogydd felly yn amlwg yn faes risg sylweddol i drigolion yr ardaloedd mwyaf bregus ac mae'r Cyngor yn gwneud cryn dipyn o waith ar y cyd gyda Chyfoedd Naturiol Cymru gynllunio ar gyfer y cymunedau sydd o dan fygythiad. Mae yna gryn sylw cyhoeddus wedi cael ei roddi eisoes i'r gwaith blaengar sy'n digwydd yn Fairbourne wrth gwrs ond fe fydd angen ymestyn y gwaith hwnnw i gymunedau erall maes o law. Un o'r gwersi a ddysgwyd yn Fairbourne yw nad yw'r strwythur ddedddfwriaethol bresennol yn addas i'n galluogi i ymateb yn briodol a byddwn yn ymgyrchu i geisio newid y sefyllfa honno. Nodir hefyd fod y Cyngor yn awdurdod llifogydd statudol sydd yn adrodd ar gamau ymarferol, ffisegol y gellid eu cymeryd i amddiffyn eiddo a chymunedau. Mae'r Cyngor hefyd yn llunio cynllun rheoli risg ar gyfer gwedddill ardaloedd Gwynedd yn seiliedig ar ardaloedd afonydd. Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn buddsoddi dros £2m o adnoddau'r Cyngor er mwyn denu grantiau oddi wrth Llywodraeth Cymru i wneud gwaith ar amddiffynfeydd mewn 6 ardal yng Ngwynedd. Mater arall wrth gwrs sydd yn codi gyda newid hinsawdd yw sychder. Prinder dŵr yn fater sydd angen ei ystyried yn ogystal â thannau sydd yn cychwyn ar diroedd sydd yn anarferol sych. Angen bod yn neffro i'r materion hyn. Tebygolrwydd ein bod am gael cyfnodau estynedig o dymheredd uwch fel y gwelwyd yn Ffrainc yn ystod yr haf 2019. Mae hyn yn anodd iawn i rai pobl fod yn ymdopi ag ef, ac yn bennaf plant ifanc a phobl hyn ac felly mae angen ystyried rôl y Cyngor yn hyn a sut y gallwn weithredu gyda eraill i fod yn gofalu am ein trigolion. |
| **12** | | Sicrhau y caiff lleisiau'r cymunedau mwyaf bregus eu cynrychioli hefyd ym mhenderfyniadau'r Cyngor a thrafodaethau rhwng y Cyngor a'r dinasyddion. | | Mae gwybodaeth ar gael gan y Cyngor am leoliadau ein hoedolion bregus ac mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ogystal â gwasanaethau iechyd mewn cysylltiad â hwy. Felly, mae'r Cyngor yn teimlo bod llais y bobl yma yn cael ei glywed. |

## ADEILADAU

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **13** | | Ôl-osod lefelau uchel o insiwleiddio mewn eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor. | | Mae’r Cyngor wedi gweithredu ar insiwleiddio i safon uchel ar ran helaeth o’i adeiladau gan gynnwys ysgolion. Cyflawnwyd rhan fwyaf o'r gwaith rhwng 2011 a 2017 gan gynnwys insiwleiddio llofftydd i 300mm, ceudodau waliau, pibellau gwres a dwr poeth. Daw'r gôst i £344,293.11 'Rydym dal wrthi'n uwchraddio insiwleiddio tai boiler (falfiau ayyb). Nid oes modd gwahanu yr arbedion o effaith cynlluniau eraill ond maent yn sicr wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad o 43% o arllwysiadau ein adeiladau. |
| **14** | | Helpu cwmnïau ynni i anelu mesurau effeithiolrwydd ynni at aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd neu sy'n fregus. | | Mae'r Cyngor angen ystyried sut y gellir gweithio ar y cyd gyda chwmniau i fod yn fwy effeithiol yn y maes yma. |
| **15** | | Gorfodi safonau effeithiolrwydd ynni isaf yn y sector rhentu preifat. | | Nid wy'r Cyngor yn ymwybodol bod grym ganddynt i fod yn gorfodi ar y sector rhentu preifat i fod yn insiwleiddio eu heiddo gan nad yw hyn yn ymddangos yn un o’r gofynion presennol. Wedi dweud hyn, wrth gwrs y bydd anogaeth yn cael ei roi i’r sector hwn ar cynlluniau sydd ar gael gan Llywodraeth Cymru, drwy gynllun Nyth, i fod yn rhoi help llaw iddynt. |
| **16** | | Mynnu safonau uwch na'r rhai cenedlaethol cyfredol ar gyfer tai newydd sydd wedi'u hadeiladu'n breifat. | | Mae’n anodd iawn i’r Cyngor fod yn mynnu ar safonau sydd yn uwch na’r gofyn cenedlaethol/deddfwriaethol. Wedi dweud hyn, yn sicr mae angen ceisio dylanwadu ar ddatblygwyr i fod yn adeiladu i’r safonau uchaf posib o ran safon y tai y maent yn eu hadeiladu ac yn sicr y safon insiwleiddio a thechnegau modern o fod yn gwresogi sydd ddim yn defnyddio ynni ffosil. |
| **17** | | Gorfodi safonau adeiladu. | | Mae hyn eisoes yn cael ei wneud a hynny drwy'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu. |
| **18** | | Mynnu bod tai a adeiladir ar dir y Cyngor yn hynod ynni effeithlon, gan ddefnyddio safon Passivhaus neu gyfwerth. | | Nid oes yna adeiladu tai o sylwedd wedi bod ar dir y Cyngor ers cryn amser ond gyda dyfodiad ein strategaeth tai newydd bydd angen sicrhau bod unrhyw dai sydd yn cael eu adeiladu o'r newydd ar ein tir yn cwrdd gyda'r safonau effeithlonrwydd ynni ymarferol uchaf posibl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **19** | | Datblygu strategaeth wresogi ac effeithiolrwydd ynni ar gyfer yr ardal. | | Ar drothwy trydydd gymal y Rhaglen Rheoli Carbon a lunwyd yn wreiddiol ar y cyd a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn ystod 2008 - 09 gan ddechrau yn 2010. Cwblhawyd Rhaglen Rheoli Carbon 1 yn 2015 gyda gostyngiad o 26% o'n arllwysiadau $CO_2$ o gymharu a gwaelodlin 2005 - 06. Mi fydd Rhaglen rheoli Carbon 2 yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2019 ac hyd yma wedi arwain at ostyngiad o 39.3% yn ein arllwysiadau $CO_2$ o gymharu a gwaelodlin 2005 - 06. Pwysleisir cynhyrchu ynni adnewyddol ar raddfa eang yn y trydydd gymal. Ystyriwyd cynllun gwresogi ardal ar y cyd gyda phartneriaid eraill yn y sector gyhoeddus fel rhan o'r rhaglen carbon wreiddiol ond nid oedd yn economaidd i'w weithredu hyd yn oed yn ardal mwyaf poblog y sir. |

**TRAFNIDIAETH**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **20** | | Galluogi'r newid cyflym at gerbydau trydan drwy osod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan (EV) | | Mae'r Cyngor am ymgeisio am grantiau ac am fuddsoddi ei hun yn mewnosod pwyntiau gwefru ar hyd a lled y sir. Bydd dechreuad yn 2020 drwy fuddsoddi £465k yn gwneud y gwaith er mwyn sefydlu 84 pwynt gwefru ar draws y sir yn y lle cyntaf. |
| **21** | | Blaenoriaethu buddsoddiad mewn cludiant mewn beicio, cerdded, tramiau a chludiant cyhoeddus, megis bysus trydan. | | Yn sicr mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o gynlluniau mewn perthynas â Teithio Llesol ac mae Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn creu llwybrau beicio a cherdded ar draws y Sir. O ran trafnidiaeth cyhoeddus, nid yw'r Cyngor wedi gweld buddsoddiad uniongyrchol gan Llywodraeth Cymru ond yn sicr mae'r Gwasanaeth TrawsCymru wedi gwella drwy'r Sir o ran ansawdd ac amlder. Wedi dweud hyn, nid yw'r bysiau yma yn rhai trydan hyd yn hyn ond mae cynlluniau yn cael eu hystyried o ran defnyddio cerbydau hydrogen gydag adroddiad wedi ei gomisiynu i edrych ar ddefnyddio'r cerbydau hydrogen ar gyfer gwasanaethau bws y Sherpa yng Ngogledd Eryri. |
| **22** | | Sefydlu Parthau Aer Glân, a chodi ffi os oes angen. | | Mae hwn yn fater sydd angen ystyriaeth gan nad oes gennym drefi na dinasoedd mawr iawn, ac nid yw ansawdd aer yn fater sydd yn achosi pryder ar hyn o bryd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **23** | | Lleihau'r defnydd o geir drwy ddulliau megis hyrwyddo rhannu ceir, ail-reoleiddio gwasanaethau bws a chyfyngu ar y gofod sydd ar gael ar y ffyrdd. | | Yn sicr mae’r Cyngor yn gweld rôl iddynt yn fan hyn i annog trigolion i rannu ceir, defnyddio bysiau ayb. Ar gyfer teithiau busnes y Cyngor rydym eisoes yn annog swyddogion i leihau ar y teithiau gwaith os yn bosib drwy leihau cyllidebau teithio ac annog dulliau eraill o gyflawni e.e. defnyddio mwy o fideo gynadleddau ayb. |
| **24** | | Mynnu fod pob tacsi'n gerbyd trydan drwy'r system trwyddedu. | | Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol fod y grym ganddynt i orfodi tacsis y Cyngor i fod yn gerbydau trydan. Debyg mai rôl y Cyngor yn hyn o beth yw sicrhau fod cyfarpar mannau gwefru ar gael ledled y Sir a fyddai yn galluogi busnesau fel cwmnïau tacsis a thrigolion fod yn buddsoddi mewn cerbydau trydan lle mae ganddynt hyder y bydd lle iddynt fod yn “charjo”eu ceir. |
| **25** | | Trosglwyddo fflyd y Cyngor ei hun i gerbydau trydan, yn gyflym. | | Fel y nodwyd yn rhif 20, mae’r Cyngor yn y broses o osod mannau gwefru a dros gyfnod fe fydd y fflyd cerbydau a faniau yn trosglwyddo i fod yn gerbydau trydan. Mae yn fater diddorol i’w ystyried o ran cerbydau mwy e.e. loriau biniau, loriau gritio ayb ac efallai mai'r datrysiad yma fyddai cerbydau hydrogen. Mae'r Cyngor gyda phartneriaid eraill eisoes yn ystyried pam mor ymarferol yw hyn ar hyn o bryd |
| **26** | | Mynnu fod yr holl ddanfoniadau i'r Cyngor yn cael eu cludo gan gerbydau trydan. | | Nid yw'r Cyngor yn mynnu bod deunyddiau sydd yn cael eu cludo iddynt yn cael ei wneud drwy gerbydau trydan ond y gobaith yw y bydd hyn yn mynd yn fwy cost effeithiol i gwmnïau fel mae amser yn mynd heibio. Mae’r Cyngor yn ymwybodol na fydd newid sylweddol i alldyniadau carbon o ddefnyddio ceir trydan ond mae sgil effeithiau amgylcheddol eraill hefyd i gerbydau trydan sydd ddim gystad. Y Cyngor yn trafod gyda’r cwmnïau trydan o ran yr heriau sydd o’n blaenau i sicrhau fod digon o drydan ar gael pan mae mwy o gerbydau trydan ar ein ffyrdd. |
| **27** | | Cyflwyno ffioedd gwahaniaethol ar gyfer hawlenni parcio neu ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â cheir. | | Mae treth cerbydau yn sicr yn codi cost gwahaniaethol ar ddefnyddwyr cerbydau sydd yn llygreddu mwy. Mae'n anodd iawn ar hyn o bryd fod yn gwahaniaethau rhwng cerbydau yn ein meysydd parcio ar sail talu ac arddangos ond gellir ystyried sefyllfaoedd eraill lle gallwn fod yn edrych ar ffi gwahaniaethol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **28** | | Gostwng yr angen i fod yn berchena defnyddio car drwy reoli datblygiadau yn y cynllun datblygu lleol | | Mae hyn yn amlwg am fod yna noddach mewn ardal wledig. Mae'r angen i fod yn berchen cerbyd yn fater hynod ddioddorol ac mae cynlluniau arloesol wedi eu datblygu mewn oleiaf dau gymuned o fewn y Sir, yn ardal Ogwen ar ail yn Abergonolwyn lle mae cerbydau trydan cymunedol ar gael ac mae posib eu hurio am bris eithaf rhesymol i'w ddefnyddio ar achlysuron lle yr ydych wir angen cerbyd. Efallai fod hyn yn un model y gellid y Cyngor fod yn dylanwadau ac annog cymunedau eraill i'w dilyn. |

**YNNI**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **29** | | Adnabod meysydd sy'n addas ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y cynllun lleol. | | Mae'r proses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cynnwys gwaith ymchwil i asesu capasiti'r tirwedd o ran datblygiadau megis ynni adnewyddol ac mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol yn ymwneud ag ynni adnewyddol a datblgygiadau sydd yn gynaliadwy. Gweler rhan 6.2 o'r Cynllun: |
| **30** | | Cyfnewid goleuadau stryd am oleuadau LED sydd wedi'u dylunio a'u cyfeirio'n dda. | | Mae 70% o oleuadau stryd bellach wedi eu trosglwyddo i oleuadau LED ac mae cynlluniau i newid y 30% sydd yn weddill. Bydd hyn yn golygu lleihad mewn allyriadu carbon o 1,540 tunell fel cyfanswm wedi cyflawni'r holl waith. Bydd yr Adran yn edrych ar newid arwyddion goleuedig nesaf. |
| **31** | | Lleihau'r ynni a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol yn ei ystâd ei hun. | | An ambitious project to significantly reduce carbon emissions and energy costs has saved Gwynedd Council over £4 million since it was established in 2010. The Council’s Carbon Management Plan has seen a number of improvements across the authority which has led to huge reductions in $CO_2$ emissions as well as delivering £4,062,958 in savings.<br><br>Now, thanks to a combination of different projects including installing more energy-efficient lighting in buildings and street lights; insulation projects; fuel cells and a number of energy saving technologies for IT equipment, its carbon footprint has reduced by a phenomenal 39.3% during this period. Since 2010, there has been particular focus on cuts in $CO_2$ emissions in Buildings’ energy down by 43% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **32** | | Integreiddio ynni adnewyddadwy megis solar thermol, paneli ffotofoltaidd neu bympiau gwres mewn datblygiadau gan yr awdurdod lleol a, cymaint ag y bo modd, mewn datblygiadau sector preifat. | | Rydym eisoes wedi mewnosod systemau PV ar 58 o adeiladau'r Cyngor a mewnosod bwyleri biomass mewn 5 adeilad. |
| **33** | | Cefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy a storio ynni. | | Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor wedi buddsoddi eisoes mewn cynhyrchu trydan drwy Baneli Solar. Bwriedir adnabod safleoedd ym mherchnogaeth y Cyngor ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddol newydd er mwyn symud i ymchwilio ymhellach i wireddu cynlluniau o'r fath. |
| **34** | | Gwrthwynebu ffracio ac echdynnu tanwyddau ffosil eraill, a lle mae gwrthwynebiad i ffracio wedi'i drechu, cefnogi protestiadau heddychlon. | | Ddim yn berthnasol |
| **35** | | Dadfuddsoddi mewn tanwyddau ffosil a buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy. | | Nid yw'r Awdurdod yn buddsoddi arian ei hun mewn cwmnïau masnachol. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gorfod dilyn rheolau buddsoddi caeth ond maent yn ddiweddar wedi penderfynu buddsoddi 12% o'r Gronfa mewn Cronfa Buddsoddiad Carbon Isel. |

**GWASTRAFF**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **36** | | Peidio ag anfon unrhyw wastraff i'w gladdu dan ddaear na'i losgi. | | Ers mis Awst eleni mae oll o wastraff gweddilliol Gwynedd yn cael ei anfon i safle trin gwastraff ( Parc Adfer). Does dim felly yn cael ei dirlenwi . Mae'r safle yn y cyfnod comisiynu ond pan yn llawn weithredol bydd yn cynhyrchu 17 MW o drydan i'r grid cenedlaethol a digon o drydan ar gyfer rhedeg y safle ei hun. |
| **37** | | Defnyddio gwastraff bwyd yn unol â'r hierarchaeth gwastraff bwyd o atal, ailddefnyddio ac ailgylchu, a sicrhau bod unrhyw wastraff bioddiraddadwy sy'n weddill, ac na ellir ei ailgylchu, yn cynhyrchu bio-nwy. | | Ers 7 mlynedd mae safle treulio anerobic GwyriAD wedi bod yn trin gwastraff bwyd a gesglir o dai a busnesau Gwynedd. Mae'r safle sydd yn lleol yng Ngwynedd yn trin y bwyd a cynhyrchu 0.5 MW o drydan i'r Grid Cenedlaethol. Gall y safle ymdrin â 11,000 tunnell o fwyd gyda 7,500 tunnell i'w gasglu gan Gwynedd. Mae ganddom ddal le iw wella er dargyfeirio mwy o fwyd oherwydd tua 60% o'r bwyd a gesglir. |
| **38** | | Mabwysiadu polisïau gwastraff economaidd cylchol mewn cynlluniau a chontractau perthnasol. | | Sicr yn flaenoriaeth gan y Cyngor i fod yn cael economi cylchol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **39** | | Hyrwyddo rhannu ac ailddefnyddio cymunedol. | | Mae'r gwasanaeth yn hybu ail ddefnyddio o fewn ein canolfannau ailgylchu drwy weithio gyda'r 3ydd sector yn lleol ynghyd ar sector breifat. Mae cynllun arloesol yn digwydd eleni er ehangu ar ddeunyddiau sydd modd eu ail defnyddio |
| **40** | | Atal y defnydd o blastig un-tro yn swyddfeydd ac eiddo'r Cyngor. | | Mae gan y Cyngor bolisi o ran defnydd plastig unwaith |

**DYLANWADU ERAILL**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **41** | | Sicrhau bod strategaeth y Corff Trafnidiaeth Is-genedlaethol yn cyd-fynd â chyllidebau carbon. | | Mae’r Cyngor yn cael ei gynrychioli ar lefel Aelod Cabinet a Phennaeth Adran ar Grwpiau Trafnidiaeth Rhanbarthol y Gogledd a’r Canolbarth. Yn sicr mae cerbydau a thrafnidiaeth carbon isel yn uchel iawn ar y rhaglen a mater sydd yn cael ei gymeryd o ddifri gan Llywodraeth Cymru. |
| **42** | | Defnyddio aelodaeth y Cyngor ar Bartneriaethau Mentrau Lleol i sicrhau bod eu penderfyniadau'n unol â'r llwybr lleihau hinsawdd a chynlluniau adfer natur. | | Nid oes yna Bartneriaeth Mentrau Lleol fel y cyfryw yng Ngogledd Cymru ond mae gan Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru gyfle i fuddsoddi i hyrwyddo twf economaidd ar draws y rhanbarth. Un o'r rhaglenni yw Mynediad Blaengar i Ynni sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau fydd yn cadarnhau'r Gogledd fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer creu a chynhyrchu ynni carbon isel, ynghyd a rhwydweithiau ynni lleol blaengar ar raddfa fach. Bydd cyflawni'r prosiectau yn sicrhau y bydd gan y Gogledd isadeiledd modern o safon uchel er mwyn hwyluso twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **43** | | Darparu cefnogaeth benodol i fusnesau bach a chanolig eu maint (SME) i gael at arian ac arbenigedd ar gyfer lleihau llygredd carbon. | | Bydd angen ymchwilio i'r cyfleoedd am arian sydd ar gael. Mae'r Cyngor Sir wedi cydweithio gyda busnesau yng Ngwynedd i annog defnyddio llai o blastig fel rhan o gynllun 'Trefi di-Blastig'. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan er enghraifft Bonta Deli a'r Pantri o Stryd y Plas Caernarfon i dorri ar ei defnydd o blastig. Mae busnes newydd ar y Maes sef y Glorian yn gwbl ddi-blastig a chynaliadwy sy'n gosod esiampl arbennig i fusnesau eraill. |
| **44** | | Defnyddio'r gallu i ddylanwadu ar ysgolion ac eraill i sicrhau y darperir prydau bwyd yn unol â'r Canllaw Eatwell swyddogol ar fwyta'n iach, a bod y prif ddewisiadau ar y bwydlenni'n iach ac yn seiliedig ar blanhigion, a chyda llai o gig a chig o ansawdd gwell. | | Mae prynu yn lleol yn fater sydd yn flaenoriaeth uchel i Wynedd ac mae lleihau'r niferoedd milltiroedd y mae bwyd yn teithio yn rhywbeth i'w annog ac mae cael cynnyrch lleol a bwyd tymhorol i weld yn synhwyrol ac yn iach. Mae Cynllun Cadw'r Budd yn Lleol y Cyngor yn ceisio uchafu cytundebau a roddir i gwmniau lleol drwy eu helpu a'u hannog i dendro am gyrundebau bwyd ac am nwyddau eraill. |

**DEFNYDD TIR**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **45** | | Dyblu'r gorchudd o goed ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor, diwygio strategaethau cynllunio lleol i ddyblu'r gorchudd o goed ledled ardal yr Awdurdod Lleol, a sicrhau y caiff coed presennol eu gwarchod yn iawn er mwyn iddynt storio carbon, cefnogi natur, gwella priddoedd ac ansawdd dŵr, a chynorthwyo o ran dylunio trefol a gwarchod rhag llifogydd. | | Mae'r Cyngor wedi paratoi Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth sy'n cwrdd â dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.<br>Mae prosiectau a rhaglenni gwaith yn cael eu sefydlu a'u gweithredu yn unol ag egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol a meddylfryd ecosystemau.<br><br>Mae prosiect Tir ac Mor Llyn yn enghraifft o'r math yma o gynllun sy'n cyfuno rheolaeth cynefinoedd, cydweithio gyda pherchnogion tir i leihau llygredd sy'n cyrraedd afonydd ac yn diweddu yn y môr, peilota dulliau cynaliadwy o amaethu a gwella cyfleoedd mynediad. Mae'r prosiect yn arloesol gan ei fod yn integreiddio gwaith ar y tir yn ogystal â'r môr, drwy hyn gellir ymestyn a chryfhau gweithio mewn partneriaeth ar draws Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a Sarnau linc. |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gan y Cyngor ddaliadau tir sylweddol sy’n cynnwys coedlannau a thiroedd sydd wedi eu hadnabod a’u dynodi’n warchodfeydd natur a safleoedd bywyd gwyllt. Mae coedlannau yn asedau pwysig ar gyfer hamdden ond mae diffyg adnoddau yn rhwysg i reolaeth effeithiol. Drwy’r broses Cynllunio a Gorchmynion Diogelu Coed linc mae’r Cyngor yn diogelu coed a choedlannau sydd o werth bioamrywiaeth a thirlun.<br><br>Yn ddiweddar mae clwyf Ash dieback wedi ymledu i Wynedd sydd am arwain i golli nifer mawr o goed aeddfed gydag effaith andwyol ar rywogaethau ac edrychiad y tirlun. Yn 2020 bydd y Cyngor yn mynd ati i baratoi cynllun Gweithredu Ash dieback linc ar gyfer ymateb i’r her ac i baratoi ar gyfer ailblannu ac adfer cynefinoedd. |
| **46** | | Amddiffyn mannau gwyrdd lleol presennol, y llain las a safleoedd natur dynodedig lleol. | | Mae llecynnau gwyrdd ac a thiroedd sydd wedi’i dynodi’n warchodfeydd natur a safleoedd bywyd gwyllt yn gyfrwng i ail gysylltu pobl a natur ac yn adnodd sy’n cyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol trigolion y Sir. Serch hynny, mae’n her i’w cynnal a’u rheoli’n effeithiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi i ymgysylltu gyda mudiadau o fewn cymunedau lleol i’w annog i gymryd “perchnogaeth” o’r tiroedd. Mae prosiect Coedlannau Cymunedol sydd wedi ei ariannu gan grant wedi dangos y gwerthfawrogiad a'r diddordeb sydd yna ymusg cymunedau i ofalu am asedau naturiol, gweler adroddiad cynnydd<br><br>Mae dynodiad Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE) yn galluogi’r Cyngor i gymryd camau i warchod a chynnal safon y tirlun a’r amgylchedd a drwy’r Gronfa Datblygu Gynaliadwy mae cymunedau a mudiadau lleol yn derbyn cefnogaeth i weithredu prosiectau sy’n bwysig iddynt. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri rol allweddol i chwarae yma hefyd wrth gwrs gan fod cyfran helaeth o dirwedd Gwynedd o fewn y Parc. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **47** | | Rheoli tiroedd ac ymylon ffyrdd ym mherchnogaeth y Cyngor i hybu bioamrywiaeth a gostwng llygredd carbon, drwy ddefnyddio llai o blaladdwyr a phlannu mwy o flodau gwyllt. | | O ran rheoli tiroedd ein hunain yn sicr mae torri ymylon ffyrdd yn waith sydd angen ei gyflawni er sicrhau diogelwch ond mae hyn wedi ei addasu i sicrhau fod bioamrywiaeth yn cael ei warchod ac sydd yn ymarferol bosib. Yn 2020 bydd y Cyngor yn cychwyn ar addasu eu patrymmau torri er mwyn annog bioamrywiaeth a blodau gwyllt ar ochr ein ffyrdd sirol. Rydym hefyd yn datblygu prosiect cyffrous mewn partneriaeth a'r elusen 'Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol' fydd yn  cefnogfi a hwyluso cymunedau i dyfu blodau gwyllt cynhenid i'w plannu ger ein ffyrdd (yn ddibynnol ar gais grant llwyddiannus). |
| **48** | | Datblygu mannau gwyrdd newydd o ansawdd da mewn ardaloedd lle nad ydynt yn bodoli, yn enwedig mewn cymdogaethau lle mae pobl yn arbennig o agored i gyfnodau poeth (heatwaves) ac/neu lle maent yn cael eu hamddifadu o natur. | | Mae grantiau yn codi bob hyn a hyn i greu mannau gwyrdd ac yn sicr bydd Cyngor Gwynedd yn manteisio ar rhain.  Mae angen eu cynnal hefyd wrth gwrs ac angen adnodd i wneud hyn a bydd y mater yn cael ei gyfarch wrth geisio am y grantiau dan sylw. |
| **49** | | Cynhyrchu cynllun adfer natur ac ecosystem i wyrdroi ac adfer ansawdd a swyddogaeth cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau. | | Mae tirlun Gwynedd a'i amgylchedd arbennig angen ei warchod. Mae heriau sylweddol i'n eco systemau, nid yn unig newid hinsawdd ond heintiau yn ogystal.  Un haint sydd yn bodoli ar hyn o bryd yw'r haint ar goed onnen. |

**YMGYRCHU**

| RHIF | | Gweithred/Disgrifiad | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **50** | | Gweithio gydag awdurdodau lleol a chynghreiriaid eraill i sicrhau mwy o bwerau rheoleiddio, pwerau codi arian a chyllid i gyflawni ein dyheadau (er enghraifft, y rhai sydd wedi'u nodi gan Gyfeillion y Ddaear), gan ymuno ag eraill i alw am gynllun gweithredu cenedlaethol ar yr hinsawdd sy'n cyfateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. | | Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda amryw o gyrff eraill i sicrhau ein bod yn gofalu a gwarchod ein hamgylchedd pwysig ac yn ceisio lleihau'r effaith ar newid hinsawdd. Fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon rydym wedi sefydlu Is grwp Newid Hinsawdd er mwyn asesu a oes yna bethau y byddem fel cyrff cyhoeddus yn gallu gwneud yn well gyda'n gilydd ac rydym hefyd yn ceisio dylanwadu ar gynlluniau sy'n cael eu gweithredu ar ol troed Gogledd Cymru drwy'r Bwrdd Uchelgais Economiadd a'r bwrdd Arwain Rhabarthol. Byddwn yn parhau i wneud hyn mewn modd democrataidd ac yn parhau i geisio am adnoddau i sicrhau ein bod yn gallu gweithredu gyda eraill i gyrraedd yr un nod pwysig yma. |

**ATODIAD 2**



% Newid Ers Gwaelodlin 2005/06 - Holl Allyriadau
0.0
-5.0
-10.0
-15.0
-20.0
-25.0
-30.0
-35.0
-40.0
-45.0
% Newid
2010/11
2011/12
2012/13
2013/14
2014/15
2015/16
2016/17
2017
2018
-8.7
-16.8
-14.5
-19.7
-26.1
-27.3
-29.7
-34.5
-39.3

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19eg o Ragfyr 2019** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygiad o drefniadau Craffu** |
| **Aelod Perthnasol:** | **Cynghorydd John Brynmor Hughes,<br>Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir i'r Cyngor:

- Barhau gyda'r trefniadau cyfredol, sef Opsiwn 1, y 3 pwyllgor craffu, gyda materion yr Adran Tai ac Eiddo yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu Gofal yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

- Yn ddarostyngedig i'r penderfyniad uchod, mabwysiadu mân addasiadau i'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

**2. CEFNDIR A RHESYMEG**

**2.1 CYFLWYNIAD**

2.1.1 Gwelir gopi o adroddiad ar adolygiad o drefniadau craffu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er ystyriaeth ar yr 28ain o Dachwedd, 2019 yn **Atodiad A**.

2.1.2 Gofynnir i'r holl Aelodau dalu sylw i gynnwys yr adroddiad hwnnw er mwyn deall y rhesymau dros adolygu ein trefniadau craffu cyfredol, yr ystyriaethau wrth adolygu, yr opsiynau gwreiddiol gan y gweithgor fu'n ymgymryd â'r gwaith adolygu, yr ymgynghori trylwyr sydd wedi digwydd a'r opsiynau terfynol a ystyriwyd.

2.1.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, fe benderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y dylid parhau gyda'r trefniadau craffu cyfredol, hynny yw Opsiwn 1 - tri phwyllgor craffu.

2.1.4 Yn rhan o'r argymhelliad hefyd, dylid nodi penderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod materion yr Adran Tai ac Eiddo yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu Gofal, ar sail bod materion iechyd a gofal bellach yn cael eu

cysylltu gyda thai.

## 2.2 MATERION CYFANSODDIADOL

2.2.1 Yn sgil unrhyw newid i'n trefniadau craffu bydd yn ofynnol addasu cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r trefniadau newydd.

*2.2.2* Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor ar y trefniadau, gofynnir i'r Cyngor llawn fabwysiadu mân addasiadau i'r Cyfansoddiad fel y nodir yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael cyfle i gyfrannu at yr adroddiad ac mae'r addasiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad wedi eu drafftio gennyf. Ar sail yr opsiwn a gynigir nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Bu'r opsiynau ar gyfer dyfodol y swyddogaeth graffu yn destun trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Tachwedd 2019. Rwyf yn fodlon nad oes oblygiadau ariannol i'r penderfyniad a geisir.

**ADRAN 7**

## 7. PWYLLGORAU CRAFFU

### 7.3 Rôl, Cwmpas ac Aelodaeth

Disgrifir rôl, cwmpas ac Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn y tabl isod:

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud **â swyddogaethau yr:**~~addysg ac economi megis:~~<br>• **Adran** Addysg<br>• **Adran** Economi **a Chymuned**<br>• ~~Llwybr i Gyflogaeth~~<br>• ~~Adfywio~~<br>• **GwE**<br>• **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud **â swyddogaethau yr:** ~~gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis:~~<br>• **Adran** Amgylchedd<br>• ~~Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol~~<br>• ~~Gwastraff ac Ail Gylchu~~<br>• ~~Lleihau ôl-troed Carbon~~<br>• **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**<br>• **Ymgynghoriaeth Gwynedd**<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• **Trosedd ac Anrhefn**<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Pwyllgor Craffu Gofal<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud **â swyddogaethau yr:** ~~gwasanaethau gofal megis:~~<br>• ~~Pobl hyn ac~~ **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**<br>• **Adran Plant a Chefnogi** Teuluoedd<br>• ~~Plant a Phobl Ifanc~~<br>• Iechyd<br>• **Adran** Tai **ac Eiddo** |

**7.10 Rôl y Cadeirydd a'r Pwyllgorau Craffu**

7.10.1 ~~Bydd rôl Cadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn hollbwysig wrth weithredu'r dull newydd o weithio.~~ Bydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, yn unigol ac fel aelodau o'r Fforwm Craffu, yn cysylltu â'r Cabinet. Bydd y Fforwm Craffu, yn ~~goruchwylio'r~~ **cymryd trosolwg o'r** Rhaglen Waith gan **cynghori ar flaenoriaethu eitemau** **a** ~~ac yn~~ nodi themâu trawsbynciol sy'n codi o'r Pwyllgorau Craffu amrywiol.

7.10.2 I grynhoi, felly, bydd y Cadeirydd yn:

(a) atebol am gyflawni'r gwaith;

(b) cyfarfod yn rheolaidd i fonitro Rhaglenni Gwaith;

(c) cysylltu â'r Cabinet ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y Rhaglen Waith Craffu; ac yn

~~(ch) adrodd yn ysgrifenedig i aelodau'r Cyngor ar gynnydd wrth weithredu'r dulliau newydd o weithio.~~

7.10.3 Golygai "Fforwm Craffu" gyfarfod o Gadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i ymgymryd a'r swyddogaethau a roddir iddynt yn Rhan 7.

**7.11 Rhaglen Waith**

7.11.1 Bydd y Pwyllgorau Craffu unigol yn cynnig eitemau ar gyfer eu gosod yn eu Rhaglenni Gwaith, wrth wneud hynny, dylent ystyried dymuniadau Aelodau'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cyngor. Cânt hefyd ystyried materion brys ac annisgwyl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith. ~~Fodd bynnag, pennir y rhaglenni gwaith gan y Fforwm Craffu fydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgorau.~~

7.11.2 Bydd trefn "Gwyntyllu", lle bydd unrhyw fater sydd yn cael ei gofrestru am ystyriaeth yn cael ei drafod, yn y lle cyntaf gyda'r Adran Gwasanaeth berthnasol i weld a oes modd ei ddatrys heb graffu ffurfiol ac wedi hynny gyda'r Aelod Cabinet perthnasol. Os nad oes modd datrys y mater bydd wedyn yn destun trafodaeth rhwng yr Aelod Cabinet a Chadeirydd Pwyllgor Craffu perthnasol i ystyried gwerth graffu'r mater cyn i'r Fforwm Craffu ~~benderfynu~~ **ystyried os dylid** ei osod ar y rhaglen waith neu beidio

**7.15 ~~Faint o~~ Nifer ~~B~~Pwyllgorau Craffu a ~~Sefydlir a beth fydd y Trefniadau ar eu cyfer?~~ Penodi Grwpiau Craffu**

7.15.1 Bydd gan y Cyngor y 3 o Bwyllgorau Craffu a nodir yn y tabl yn Adran 7.3 **wedi eu penodi yn unol â threfniadau'r Cyngor** ~~a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd~~. Caiff y Pwyllgorau benodi grwpiau ~~llai~~ **o aelodau ar sail tasg a gorffen** i gynnal ymchwiliadau neu ~~weithgorau~~ graffu manwl ar bynciau penodol **a ddiffinnir gan y Pwyllgor** ~~er mwyn adrodd yn ôl iddynt~~. **Byddent yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Caiff y Pwyllgor benodi uchafswm o 5 aelod i wasanaethu ar y grŵp.** ~~Ceir~~ **Caniateir** penodi grwpiau o'r fath am gyfnod penodol **er cyflawni eu cylch gorchwyl** ac fe'i diddymir pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben **oni bai ei fod wedi ei ymestyn gan y Pwyllgor. Rhaid i aelodaeth y gweithgor gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grwp gwleidyddol gwahanol. Bydd y Fforwm Craffu yn cynghori'r Pwyllgorau ar flaenoriaethu adnoddau ar gyfer cefnogi gweithgorau.**

**7.20 Adroddiadau gan y Pwyllgorau Craffu**

7.20.1 Bydd pob argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgorau Craffu yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn gyson â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol), neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol (e.e. pe byddai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi cytunedig). Bydd yr argymhellion hyn gan y Pwyllgor yn medru cynnwys argymhellion ymchwiliad neu ~~weithgor~~ **grŵp** craffu.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU |
| **DYDDIAD** | 28 TACHWEDD 2019 |
| **TEITL** | ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU |
| **AWDUR(ON)** | Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)<br>Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) |
| **PWRPAS** | Llunio argymhelliad i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod nesaf, ar fodel craffu newydd ar gyfer Mai, 2020 |

**CEFNDIR**

1. Mabwysiadodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017 y trefniadau craffu cyfredol. O dan y drefn bresennol, mae tri Phwyllgor Craffu ynghyd â rôl craffu materion corfforaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cynhelir ymchwiliadau craffu, lle mae oddeutu 5 aelod o Bwyllgor Craffu yn ymchwilio i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

2. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau craffu cyfredol oherwydd:
   - Ein bod yn derbyn sylwadau nad oedd craffu yn ychwanegu gwerth, fod ein trefniadau cyfredol yn araf yn dwyn ffrwyth a theimlad y gellid gwneud pethau yn well
   - fod hyd at 50% o eitemau'r pwyllgorau craffu yn eitemau er gwybodaeth i Aelodau'r pwyllgor craffu penodol
   - fod seddi gweigion ar nifer o'n pwyllgorau craffu (dros y misoedd diwethaf) gan fod Aelodau ddim yn awyddus i fod yn eistedd ar bwyllgor craffu
   - fod ceisio gwelliant parhaus trwy adolygu a herio ein trefniadau yn beth da, ein bod wedi addo gwneud hyn wrth i'r trefniadau newydd gael eu mabwysiadu yn Mawrth 2017 a bod cefnogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i hynny.

3. Sefydlwyd gweithgor o aelodau a swyddogion i adolygu'r trefniadau. Aelodaeth y gweithgor oedd y Cynghorwyr Simon Glyn, Nia Jeffreys, Beth Lawton, Dyfrig Siencyn ynghyd ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dilwyn Williams (Prif Weithredwr).

4. Daeth y gweithgor i'r casgliad y dylid diffinio pwrpas craffu er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynghylch pwrpas craffu yng Ngwynedd. Nodir y diffiniad isod:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r diffiniad wedi ei selio ar arfer gorau'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus. Nid yw'n ail-ddiffinio'r gofyn statudol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, ond yn hytrach yn cadarnhau ethos Craffu yng Ngwynedd.

**LLUNIO OPSIYNAU**


5. Roedd y gweithgor o'r farn, o ystyried y materion a nodwyd yn 2 uchod, fod lle i wella ein trefniadau cyfredol, gyda'r gobaith y byddai'n arwain at wella gwasanaethau i bobl Gwynedd.

6. Wrth geisio llunio opsiynau i wella ein trefniadau craffu a sicrhau fod craffu yn ateb y pwrpas, rhoddwyd sylw i'r prif ystyriaethau a ganlyn:

- Trefniadau rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau
- Manteision ac anfanteision trefniadau craffu ffurfiol mewn pwyllgor
- Manteision ac anfanteision ymchwiliadau
- Adnoddau ac amser

7. Lluniwyd tri opsiwn er ystyriaeth:


- Opsiwn 1 – Tri Phwyllgor Craffu (Addasu'r trefniadau cyfredol)




Byddai'r opsiwn yma'n addasiad o'r trefniadau cyfredol gyda thri Phwyllgor Craffu o 12 aelod o gymharu â'r 18 aelod sydd yn bresennol. Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau gyda rôl craffu materion corfforaethol. Cynhelir nifer fechan o ymchwiliadau oherwydd yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi gwaith y Pwyllgorau.

Parheir gyda'r Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Fforwm Craffu ynghyd â'r trefniant o 2 aelod o Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

- Opsiwn 2 – Un Prif Bwyllgor Craffu





Byddai'r opsiwn yma'n sefydlu un Prif Bwyllgor Craffu o 12 aelod a fyddai'n craffu'r elfennau pwysicaf o waith y Weithrediaeth (Cabinet a swyddogion) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Yn ogystal â rheoli holl waith craffu'r Cyngor a chomisiynu a chydlynu cyfres o Ymchwiliadau Craffu a Grwpiau Tasg a Gorffen, a fydd yn edrych ar bynciau mewn manylder ac yn llunio argymhellion gwella a'u cynnig i'r Aelodau Cabinet perthnasol. Byddai cyfran helaeth o'r gwaith craffu yn cael ei gwblhau drwy ymchwiliadau neu grwpiau tasg a gorffen.

Byddai sesiynau anffurfiol "hawl i holi" yn cael eu cynnal er rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau tu allan i drefniadau craffu. Cynhelir hyd at 20 sesiwn y flwyddyn gyda 2 sesiwn y flwyddyn fesul Aelod Cabinet a Phennaeth Adran.

Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu, a byddai aelod o'r Prif Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

- Opsiwn 3 – Dau Bwyllgor Craffu



Byddai'r opsiwn yma'n sefydlu dau Bwyllgor Craffu gyda 10 aelod ar bob Pwyllgor. Yn yr un modd ac Opsiwn 1, byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau gyda rôl craffu materion corfforaethol a chynhelir nifer fechan o ymchwiliadau oherwydd yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi gwaith y Pwyllgorau.

Byddai trefniadau i sicrhau rhannu gwybodaeth gyda'r holl Aelodau yn rhan greiddiol o'r trefniadau i gefnogi'r opsiwn yma hefyd, ond ar gyfer pynciau penodol yn unig.

Parheir gyda'r Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Fforwm Craffu ynghyd â'r trefniant o 2 aelod o Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

**YMGYNGHORI**

8. Trefnwyd dwy sesiwn i gael barn yr holl Aelodau am yr opsiynau oedd wedi eu datblygu. Gofynnwyd i'r Aelodau a fu yn y gweithdai (26 mewn cyfanswm) am y manteision a'r anfanteision fesul opsiwn. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi eu cynnwys fesul opsiwn yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

9. Gofynnwyd i bob aelod a fu'n bresennol pa opsiwn roeddent yn ei ffafrio a'r rheswm pam. Yn y gweithdy cyntaf roedd mwyafrif o'r aelodau yn ffafrio Opsiwn 2 (Un Prif Bwyllgor Craffu) gyda'r mwyafrif yn yr ail weithdy yn ffafrio Opsiwn 1 (Tri Phwyllgor Craffu). Roedd rhai aelodau yn ffafrio Opsiwn 3.

10. Dyma grynodeb o resymau'r aelodau am ffafrio opsiwn penodol:

<u>Opsiwn 1</u>

- Dyma'r ffordd orau i gael y gorau i bobl Gwynedd, ond rwy'n dal i bryderu am nifer y seddi gweigion.
- Mae gan aelodau hawl i holi swyddogion eisoes felly ddim yn gweld budd mewn newid y trefniadau craffu.
- Mae'r trefniadau cyfredol yn gweithio, gwella rhywfaint ar beth sydd gennym, a dylid ystyried cael gwared o'r Fforwm Craffu.
- Mae'n rhoi grym i'r pwyllgorau craffu a rhaid i'r Aelodau Cabinet gymryd sylw. Poeni am gapasiti i gynnal ymchwiliadau gyda 12 aelod yn unig, cadw i 18.
- Mae'r opsiwn yma yn rhoi lle i fwy o Aelodau ar bwyllgor.
- Mae opsiwn 2 yn ormod fel cabinet cysgodol, ond lle i newid aelodaeth gyfredol i 15 aelod yn lle 18, a chael Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'i gilydd.
- Mae opsiwn 2 yn rhoi gormod o faich ar aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu a ddim digon o gyfle i'r holl Aelodau.

<u>Opsiwn 2</u>

- Mae angen newid y ffordd yr ydym yn craffu. Mae ymchwiliadau yn fanteisiol gan fod pawb yn cael cyfle i holi yn anffurfiol a gallu mynd dan

- yr wyneb i gael gwell dealltwriaeth. Hefyd, ffordd well o flaenoriaethu'r materion cywir i'w craffu. Ond, rhaid cael ymrwymiad gan yr holl Aelodau.
- Mae'r sesiynau "hawl i holi" ar gael i bob aelod a'i fod yn gyfle i ddysgu mwy am nifer fawr o wahanol feysydd yn lle dim ond maes un pwyllgor craffu.
- Mae potensial i'r hawl i holi fod yn craffu anffurfiol, ond bo modd cyfeirio ymlaen i graffu ffurfiol.
- Mae ymchwiliadau wedi dod a mwy o werth na chraffu ffurfiol - dyma'r ffordd ymlaen.
- Rhaid sicrhau nad yw'r baich gwaith yn rhy drwm i 12 aelod.

<u>Opsiwn 3</u>

- Mae 2 bwyllgor i weld yn fwy synhwyrol, ond fod dal lle i gael rhywfaint o wybodaeth trwy'r sesiynau penodol. Nid ydym yn gallu cynnal y trefniadau cyfredol gan nad yw Aelodau yn fodlon bod yn rhan lawn.
- Hwn sy'n fy nennu ar hyn o bryd

11. Derbyniwyd sylwadau gan rhai aelodau yn y gweithdai o ran eu dymuniad i ddychwelyd i drefniadau llywodraethu blaenorol. Rhaid cofio fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu trefniadau Cabinet a Chraffu ers 2012 yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Felly, nid yw'n bosib dychwelyd i drefniadau llywodraethu blaenorol. Mae'r adolygiad craffu yn cadw o fewn gofynion cyfreithiol y Mesur.

12. Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Grŵp Rheoli Corfforaethol (Penaethiaid Adran). Nid oedd ganddynt sylwadau penodol fesul opsiwn, ond roeddent yn dymuno cyfleu'r negeseuon cyffredinol a ganlyn:

- Mae budd i ddeialog anffurfiol rhwng Aelodau a Phenaethiaid a'u bod wedi gweld gwerth mewn trefniadau o'r fath
- Mae lle i finiogi'r trefniadau ar gyfer adnabod a blaenoriaethu materion i gael eu craffu a bod lle i'r aelodau fod yn fwy clir o beth yn union sydd angen ei graffu a pham
- Eu bod yn barod i weithredu o fewn unrhyw un o'r opsiynau i gyfundrefn craffu

13. Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu) ar 24 Hydref 2019, rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghori. Gwahoddwyd aelodau'r Gweithgor i'r cyfarfod er mwyn trafod y sylwadau a rhoi sylw i faterion penodol, megis meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu, rôl y Fforwm Craffu, niferoedd aelodau ar bwyllgorau a nifer cyfarfodydd fesul opsiwn.

14. Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod ar yr opsiynau, roedd y sylwadau yn amrywiol er yn tueddu at ffafrio opsiwn 1.

**YR OPSIYNAU**

15. Mae manylder yr opsiynau ynghyd â'r manteision ac anfanteision fesul opsiwn, i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd ar yr opsiynau yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r drafodaeth yng nghyfarfod y Fforwm Craffu, mae'r opsiynau wedi eu diwygio. Un prif newid yw bod nifer yr aelodau ar y pwyllgorau o dan bob opsiwn wedi cynyddu i 18.

16. Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu cytunwyd mai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a fyddai'n craffu materion yr Adran Tai ac Eiddo yn Opsiwn 1. O ganlyniad i dderbyn sylwadau yn dilyn y cyfarfod, trefnwyd trafodaeth rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i drafod pa bwyllgor ddylai graffu materion yr Adran Tai ac Eiddo yn Opsiwn 1.

17. Cyn y cyfarfod uchod, cynhaliwyd trafodaeth yn Sesiwn Anffurfiol y Pwyllgor Craffu Gofal ar 14 Tachwedd 2019. Nodwyd yn y cyfarfod farn mai'r Pwyllgor Craffu Gofal a fyddai'r lle gorau i graffu'r materion tai ac eiddo am y rhesymau a ganlyn:

- Mae materion tai e.e. digartrefedd, plant, oedolion bregus ayyb, yn faterion sy'n effeithio ar bobl, ac felly fwy'n synhwyrol eu cynnwys o dan y maes gofal.
- Mae gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal arbenigedd yn y maes yn barod gan mai'r Pwyllgor hwn sydd wedi bod yn craffu materion tai ers blynyddoedd.
- Er bod materion eiddo wedi bod yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn hanesyddol, ychydig iawn o waith eiddo sydd angen ei graffu beth bynnag. Mae llawer mwy o bwyslais ar yr ochr tai.

Roedd y Pennaeth Tai ac Eiddo yn bresennol yn y cyfarfod ac yn cefnogi'r farn uchod gyda chefnogaeth i'r safbwynt wedi ei nodi yn ogystal gan y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant.

18. Cynhaliwyd trafodaeth rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Tachwedd. Nid oedd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wrthwynebiad mewn egwyddor i'r Pwyllgor Craffu Gofal graffu materion tai ac eiddo.

19. Nid yw aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cael cyfle i drafod y mater. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 5 Rhagfyr 2019.

20. Er gwybodaeth, meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu Cymunedau o dan Opsiwn 1 byddai materion yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynllun Datblygu Lleol, Trosedd ac Anrhefn a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

21. Mae meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu wedi eu rhannu er ceisio sicrhau bod Aelod Cabinet yn adrodd i un Pwyllgor Craffu. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried pa bwyllgor craffu ddylai graffu materion yr Adran Tai ac Eiddo.

22. Bydd angen diwygio'r cyfansoddiad i ymgorffori unrhyw newidiadau, gyda'r modd y gwneir hyn yn ddibynnol ar ba opsiwn a fabwysiadir yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Rhagfyr 2019. Os bydd y Swyddog Monitro o'r farn eu bod yn fan newidiadau, bydd yn gwneud y newidiadau, ond pe byddai newidiadau sylweddol angen eu gwneud, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno er cymeradwyaeth i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2020.

**ADNODDAU I GEFNOGI CRAFFU**

23. Fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) rwyf wedi adnabod yr angen i gryfhau'r gefnogaeth i graffu eisoes, ac wedi bwrw ymlaen gydag ail strwythuro o fewn y Gwasanaeth er mwyn cefnogi'r elfen hon.

24. Bellach, mae cefnogaeth i'r elfen craffu gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith (cyfran o amser), Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu (hanner amser ar graffu), ac Ymgynghorydd Craffu (llawn amser). Yn ogystal, mae 3 o Swyddogion Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.


**ARGYMHELLIAD**

25. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- ystyried yr opsiynau,
- ystyried pa bwyllgor craffu ddylai craffu materion yr Adran Tai ac Eiddo o dan Opsiwn 1, unai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau neu'r Pwyllgor Craffu Gofal,
- ystyried os oes un opsiwn yn rhagori gan wneud argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 19 Rhagfyr 2019.

## ATODIAD 1

### OPSIWN 1 – TRI PHWYLLGOR CRAFFU (ADDASU'R TREFNIADAU CYFREDOL)




## A – RHANNU GWYBODAETH

1. Ni fyddai unrhyw drefniadau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r opsiwn yma. Byddai'n rhaid i Aelodau unigol wneud ymholiadau am wybodaeth eu hunain.

2. Ni fyddai trefniadau ar gyfer sesiynau ar bynciau penodol yn bodoli chwaith.

## B - RÔLAU

3. FFORWM CRAFFU - Mae rôl y Fforwm Craffu yn hanfodol, gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor yn eu Fforwm anffurfiol ac yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rôl y Fforwm Craffu fel a ganlyn:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Bydd rôl hefyd i'r Fforwm adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

4. Byddai rôl y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Craffu eitemau ffurfiol mewn cyfarfod - uchafswm o 2 – 3 eitem fesul cyfarfod.

- Bydd nifer fechan iawn o ymchwiliadau yn cael eu cynnal. Byddai'r ymchwiliadau yn dilyn yr un fformat a'r hyn a argymhellir ar gyfer Prif Bwyllgor Craffu. Gyda chyfle i aelodau eraill fod yn cymryd rhan, os nad oes nifer digonol o aelodau'r pwyllgor craffu perthnasol yn datgan diddordeb i fod yn rhan o ymchwiliad. Dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o'r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad.

- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn annibynnol i'r Aelod Cabinet ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor perthnasol.

- Bydd pob pwyllgor yn adolygu **effaith** eu gwaith craffu yn barhaus gyda'r Cadeirydd i adrodd hynny i'r Fforwm Craffu.

**C - TREFNIADAU YMARFEROL**

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau | **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** (Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) |
| | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** (Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Adran Tai ac Eiddo, Cynllun Datblygu Lleol, Trosedd ac Anrhefn, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| | **Pwyllgor Craffu Gofal** (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Iechyd) |
| | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid, Tîm Arweinyddiaeth, Gwasanaeth Cyfreithiol a Chynlluniau Corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor) |
| | |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol* |
| | Aelodau cyfetholedig ar Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 5 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |
| Adnabod materion i'w | Cadw cofrestr ar y log craffu |

| | |
|---|---|
| craffu | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r pwyllgor |
| | Cyfarfodydd anffurfiol rhwng y Cadeirydd/Is-gadeirydd, Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth perthnasol |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/holl Aelodau Cabinet |

* Byddai dyraniad seddi a chadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yr un fath a'r sefyllfa gyfredol.

5. Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet – Mae lle hefyd i wella ein trefniadau cyflwyno argymhellion i'r Aelod Cabinet. Bydd pob eitem (boed yn ymchwiliad neu'n eitem pwyllgor) wedi sicrhau argymhellion clir ac yn nodi'r esboniad y tu ôl i'r argymhellion hynny.

    - Cyflwynir yr argymhellion hynny i'r Aelod Cabinet wedi i Aelodau'r Pwyllgor eu cymeradwyo.

    - Os oes mater wedi cael ei graffu ac yna yn cael ei gyflwyno yn eitem i'r Cabinet, bydd angen cyfeirio at argymhellion y Craffwyr yn ffurfiol fel rhan o'r adroddiad.

    - Gellir hefyd defnyddio'r hawl i gyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Cabinet neu i Aelod Cabinet gan ofyn am ymateb o fewn yr amserlen sydd wedi ei nodi yn y cyfansoddiad, os cyfyd yr angen.

## Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI

| MANTEISION OPSIWN 1 | ANFANTEISION OPSIWN 1 |
|---|---|
| • Pwyllgorau wedi dangos eu bod yn gallu bod yn effeithiol gan eu bod yn canolbwyntio ar bwnc penodol – ffocws<br>• Grymuso a miniogi'r drefn gyfredol sydd angen ei wneud (ond heb yr atebolrwydd i'r Fforwm Craffu)<br>• Nifer cyfarfodydd pwyllgor – mwy o gyfarfodydd yn digwydd yn amlach<br>• Mwy o aelodau yn gallu cymryd rhan gan fod 3 pwyllgor<br>• Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn gallu cyfarfod efo'r Aelod Cabinet a Phennaeth Adran perthnasol | • Elfen 'set piece' mewn pwyllgorau<br>• Cadw at y pwyllgorau – pawb ddim yn cael cyfle i fod yn rhan o bob maes<br>• A yw'n gynaliadwy? Aelodau ddim yn troi fyny.<br>• Llawer o waith i aelodau craffu<br>• Aelodau ddim yn teimlo'n rhan o drefniadau'r Cyngor yn gyfredol<br>• Ymchwiliadau Craffu – ddim mor sydyn a ddylent fod, ddim yn agored i holl aelodau'r Cyngor i fod yn rhan ohonynt, llai o ymchwiliadau yn cael eu cynnal<br>• Nifer fach o ymchwiliadau |

| | |
|---|---|
| • Gwaith ymchwiliadau (er niferoedd bychan) yn dod a gwell allbynnau<br>• Aelodau yn fwy tebygol o fynd ar ymchwiliadau gan eu bod yn "perthyn" i'r pwyllgor<br>• Lle i wahodd aelodau sydd ddim ar y pwyllgor craffu perthnasol i mewn i unrhyw ymchwiliad<br>• Rôl y Fforwm Craffu wedi bod yn dda<br>• Arbenigedd fesul maes i aelodau'r pwyllgor penodol<br>• Fforwm Craffu – trosolwg o faterion ar draws yr holl faterion craffu a herio naill a'r llall | • Rôl y Fforwm Craffu – ddim yn hoff o'r rôl blaenoriaethu gan y Fforwm craffu<br>• Dim cyfle "Hawl i Holi" |

## OPSIWN 2 = UN PRIF BWYLLGOR CRAFFU

**1 x PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

- Blaenoriaethu materion i'w craffu
- Ymchwiliadau
- Rhywfaint o graffu ffurfiol

18 aelod, 6 – 8 cyfarfod ffurfiol

- "Hawl i Holi" - √
- Ymchwiliadau - √
- Aelodau unigol - √
- Fforwm Craffu - X
- Cyfarfodydd Craffu/ Cabinet - √
- Cyfarfodydd herio perfformiad - √

## A – RHANNU GWYBODAETH

1. Byddai'r opsiwn yma yn seiliedig ar sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth **i'r holl aelodau** y tu allan i drefniadau craffu, sesiynau anffurfiol "hawl i holi".

2. SUT?

Sesiynau "hawl i holi"

(hyd at 20 sesiwn y flwyddyn h.y. Pob Aelod Cabinet/ Pennaeth 2 waith y flwyddyn ar gyfer Opsiwn 2)

- Amgylchiadau anffurfiol – grwpiau llai
- Penaethiaid ac Aelod Cabinet i rannu gwybodaeth
- Seiliedig ar gyfarfodydd herio perfformiad
- Cyfle i aelodau godi materion a holi ymhellach i gael dealltwriaeth o ddatblygiadau mewn meysydd
- Gall fod materion yn codi o'r sesiynau i'w cyferio i'w craffu ymhellach
- Mynychu yn ddewisiol

## B - RÔLAU

3. Argymhellir y byddai rôl y Prif Bwyllgor Craffu fel a ganlyn:

- cymryd trosolwg o'r gwaith craffu ar draws y Cyngor gan FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu ac adnabod y dull mwyaf effeithiol o graffu.

- Bydd **mwyafrif** y gwaith craffu trwy **ymchwiliadau/grwpiau tasg a gorffen**, ond rhywfaint o graffu ffurfiol hefyd.

- Craffu ffurfiol – Bydd rhywfaint o graffu ffurfiol ee eitemau i'w hadrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor lle nad oes angen ymchwiliad ond fod angen dal Aelod Cabinet i gyfrif am ddiffyg cynnydd. Byddai'r Pwyllgor hefyd angen craffu ar faterion penodol megis Trosedd ac Anrhefn, Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, GwE a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn yn annibynnol ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor.

- Byddai gan y Prif Bwyllgor Craffu rôl i adolygu **effaith** craffu yn barhaus ac i adolygu'r trefniadau i'r dyfodol.

4. Gan fod yr ymchwiliadau yn greiddiol i'r opsiwn yma, amlinellir y trefniadau isod:

**Ymchwiliadau Craffu**

- criw bach o aelodau (5 fel uchafswm – dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o'r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad)

- Un aelod o'r Prif Bwyllgor i fod ar bob ymchwiliad – yn cyd-fynd â'u maes cyfrifoldeb

- POB aelod yn gallu bod yn rhan o ymchwiliadau (byddai'n rhaid i'r Prif Bwyllgor Craffu benodi pa aelodau sy'n rhan o'r ymchwiliadau ynghyd a briff ac amserlen glir.)

- RHAID sicrhau fod pob ymchwiliad neu eitem graffu ffurfiol yn dod i gasgliad gydag
    - Argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth, a
    - Rheswm clir y tu cefn i bob argymhelliad (hynny yw'r "pam" ein bod yn argymell hyn)

- Pob ymchwiliad i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ffurfiol

- Bydd ymchwiliadau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â gofynion, nid yn ôl niferoedd.

**Grwpiau Tasg a Gorffen**

- Bydd rhai materion y gellir ymdrin â hwy trwy gyfrwng un neu ddau gyfarfod yn unig. Gelwir y rhain yn grwpiau tasg a gorffen.

**C - TREFNIADAU YMARFEROL**

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y Prif Bwyllgor | Craffu'r elfennau pwysicaf o waith y Weithrediaeth (Cabinet a swyddogion) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rheoli holl waith craffu'r Cyngor a chomisiynu a chydlynu cyfres o Ymchwiliadau Craffu a Grŵpiau Tasg a Gorffen a fydd yn edrych ar bynciau mewn manylder ac yn llunio argymhellion gwella a'u cynnig i'r Aelodau Cabinet perthnasol. |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol*<br>Aelodau cyfetholedig addysg |
| | a) Byddai gan bob Aelod o'r Prif Bwyllgor gyfrifoldeb am faes penodol.<br>b) Byddai'r aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad perthnasol i'w maes cyfrifoldeb.<br>c) Byddai'r aelod(au) hynny yn arwain ar ymchwiliad yn y maes (lle'n bosib neu'n ymddwyn fel person cyswllt).<br>ch) Byddai gofyn i bob Aelod (boed yn aelod o'r Prif Bwyllgor Craffu neu beidio) fod yn rhan o ymchwiliad neu Grŵp Tasg a Gorffen. |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 6-8 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |
| Adnabod materion i'w craffu | Cadw cofrestr ar y log craffu |
| | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r Pwyllgor |
| | Sesiynau "Hawl i Holi" |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/ holl Aelodau Cabinet |

* Petai'r prif bwyllgor yn cael ei sefydlu heddiw, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yna byddai aelodaeth y Prif Bwyllgor Craffu yn debygol o fod fel a ganlyn - Grŵp Plaid Cymru (10), Grŵp Annibynnol (5), Grŵp Llais Gwynedd (2), Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd (1) ac Aelodau Unigol (0).


** Yn yr un modd, byddai Cadeiryddiaeth y pwyllgor yn cael ei ddynodi i'r Grŵp Annibynnol. Petai'r cydbwysedd gwleidyddol yn parhau'r un fath ar ôl dwy flynedd, yna byddai'r Gadeiryddiaeth yn parhau gyda'r Grŵp Annibynnol.

5. <u>Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet</u> – Yn yr un modd ag a nodwyd yn opsiwn 1, mae lle i dynhau'r cyswllt ffurfiol gyda'r cabinet.

**Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI**

| MANTEISION OPSIWN 2 | ANFANTEISION OPSIWN 2 |
|---|---|
| • **"Hawl i Holi**" ar gael i bawb<br>• Aelod Cabinet yn cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor wedi bod yn dda = tebyg i'r Hawl i Holi<br>• Hawl i Holi – torri i grwpiau bychain i aelodau gael dweud eu dweud<br>• Blaenoriaethu'r materion cywir<br>• Aelodau brwdfrydig<br>• Cyfle i aelodau ymroi i faes penodol<br>• Craffu gwell mewn criwiau bychain<br>• Ymchwiliadau – mynd i fwy o fanylder ac yn cael gwell effaith ac argymhellion (wedi gweld effaith)<br>• Clymu hefo herio perfformiad yn fuddiol<br>• Mwy o ymchwiliadau | • Cryn dipyn o waith a phwysau amser ar aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu - gwneud gwaith y Fforwm Craffu, aelodau yn arwain ar yr ymchwiliadau a gwaith ar feysydd penodol<br>• Baich ar Gadeirydd y Pwyllgor<br>• Gwaith 3 pwyllgor craffu i mewn i 1 pwyllgor craffu<br>• Llwyth Gwaith – angen arbenigedd mewn meysydd gwaith<br>• Llai o aelodau yn cymryd rhan yn y drefn craffu<br>• Aelodau eraill yn camu'n ôl<br>• Anodd cael aelodau eraill i fod yn rhan o'r ymchwiliadau craffu |

**OPSIWN 3 – DAU BWYLLGOR CRAFFU**




## A – RHANNU GWYBODAETH

1. <u>Byddai trefniadau i sicrhau rhannu gwybodaeth gyda'r **holl Aelodau** yn rhan greiddiol o'r trefniadau i gefnogi'r opsiwn yma hefyd, ond ar gyfer PYNCIAU arbennig yn unig</u>.

2. SUT?

   Byddai'r sesiynau rhannu gwybodaeth yn digwydd ar gyfer pynciau penodol yn unig yn yr opsiwn yma e.e. sesiynau TWF, ymwybyddiaeth o ddatblygiadau ym maes Addysg, sesiynau cynllunio ayyb sydd wedi eu cynnal eleni.

## B - RÔLAU

3. <u>FFORWM CRAFFU</u> - Mae rôl y Fforwm Craffu yn hanfodol, gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor yn eu Fforwm anffurfiol ac yn herio'r naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rôl y Fforwm Craffu fel a ganlyn:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ ymchwiliad)
- Bydd rôl hefyd i'r Fforwm ystyried a blaenoriaethu materion sydd angen sylw penodol yn sgil y trefniadau rhannu gwybodaeth, gan flaenoriaethu pa bynciau penodol fydd yn cael sylw.

- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

4. Byddai rôl y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Craffu eitemau ffurfiol mewn cyfarfod - uchafswm o 2 – 3 eitem fesul cyfarfod.
- Bydd nifer fechan iawn o ymchwiliadau yn cael eu cynnal. Byddai'r ymchwiliadau yn dilyn yr un fformat a'r hyn a argymhellir ar gyfer Prif bwyllgor craffu, gyda chyfle i'r holl Aelodau fod yn cymryd rhan. Dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o'r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad.
- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn annibynnol i'r Aelod Cabinet ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor perthnasol.
- Bydd pob pwyllgor yn adolygu **effaith** eu gwaith craffu yn barhaus gyda'r Cadeirydd i adrodd hynny i'r Fforwm Craffu.

## C - TREFNIADAU YMARFEROL

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau | **Pwyllgor Craffu Adfywio** (Adran Economi a Chymuned, Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Adran Tai ac Eiddo, Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Throsedd ac Anrhefn.) |
| | **Pwyllgor Craffu Cefnogi Pobl** (Adran Addysg, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd, GwE a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid, Tîm Arweinyddiaeth, Gwasanaeth Cyfreithiol a Chynlluniau Corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor) |
| | |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol* |
| | Pwyllgor Craffu **Cefnogi Pobl** fyddai â chyfrifoldeb am edrych ar faes addysg yn benodol ac felly byddai'r aelodau cyfetholedig addysg yn eistedd ar y pwyllgor hwn. |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 5 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |

| | |
|---|---|
| Adnabod materion i'w craffu | Cadw cofrestr ar y log craffu |
| | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r pwyllgor |
| | Cyfarfodydd anffurfiol rhwng y Cadeirydd/Is-gadeirydd, Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth perthnasol |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/ holl Aelodau Cabinet |

* Petai'r pwyllgorau yn cael eu sefydlu heddiw, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yna byddai aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn debygol o fod fel a ganlyn -

| **18 aelod** | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelodau Unigol | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Adfywio | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cefnogi Pobl | 10 | 6 | 1 | 0 | 1 | 18 |

** Yn yr un modd, byddai Cadeiryddiaeth y pwyllgorau yn cael ei dynodi fel a ganlyn – Grŵp Annibynnol – 1, Grŵp Plaid Cymru - 1

5. Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet – Yn yr un modd ag a nodwyd yn opsiwn 1, mae lle i dynhau'r cyswllt ffurfiol gyda'r cabinet.

**Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI**

| **MANTEISION OPSIWN 3** | **ANFANTEISION OPSIWN 3** |
|---|---|
| • "Fudge" - canol y ffordd rhwng y ddau opsiwn - gweithio i ryw raddau<br>• Rhannu pwysau gwaith rhwng 2 bwyllgor<br>• Gwaith craffu addysg a gofal mewn un Pwyllgor<br>• Fforwm Craffu – trosolwg o faterion ar draws y Pwyllgorau Craffu | • Llwyth Gwaith - Addysg a Gofal efo'i gilydd yn ormod<br>• Fforwm Craffu yn blaenoriaethu yn wahanol i ddymuniadau aelodau |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **19 Rhagfyr 2019** |
| **TEITL :** | **Ail-benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae pump 'aelod annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol) ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod yn cynrychioli'r cynghorau cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Mae tymor aelodaeth dau o'r aelodau annibynnol, sef Einir Young a Margaret E. Jones wedi dod i ben.

3. Mae'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) yn caniatáu ail-benodi aelodau annibynnol am un cyfnod olynol, pellach o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r ddau aelod yn gymwys i'w hail-benodi, ac maent wedi mynegi eu parodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach. Byddai eu hail benodi yn golygu na fyddai'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y maent wedi ei ennill yn ystod eu gwasanaeth.

4. Tra bod rhaid dilyn trefn statudol o hysbysebu a chyfweld cyn penodi aelod annibynnol newydd, nid oes angen dilyn y broses honno wrth ail-benodi.

**Argymhelliad**

5. Ail benodi Einir Young a Margaret E. Jones fel aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Y Pennaeth Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.